So, there is a balance there, but, I think that, with pressures coming on budgets, we also have to find somewhat smarter solutions to some of these issues, and certainly try to address the sort of access issues that were picked up in the National Audit Office report. We will need to try to find solutions that not only address access, but also solutions that address communication with the public. Similarly, the museum faces quite serious issues in relation to its estate, and estate management—it needs quite a lot of investment, which we can get into later, if we need to. However, clearly, there are possibilities and solutions there: by addressing improvements in the estate, we can also address issues in relation to the proper care and storage of the collections as well, so it is a case of finding these multiple solutions. Certainly, storage does not necessarily mean that collections are not accessible to the public. We have to find solutions that will enable public access.

[5] **Janet Davies:** Thank you. I think that some of the other Members will want to go into particular details, later this morning. However, may I just ask at the moment, you seem to have managed to reduce the estimate of the size of the collection from 7.5 million items to 4.7 million items, how did you manage to do that? That is quite a significant difference.

Mr Houlihan: I can give a general answer and then, if you require further information, Dr Wiliam will be happy to provide it.

digwyddiadau, a gweithgareddau addysgol yn yr ystyr arferol, ond mae yna ysgogiadau hirdymor hefyd, yn arbennig o ran diogelwch y casgliadau a'r dogfennau a gofalu amdanynt. Mae'n fater sut i sicrhau'r cydbwysedd hwnnw, a cheisio adeiladu arno. Fodd bynnag, o edrych ar gyllidebau Amgueddfeydd ac Oriolau Cenedlaethol Cymru yn ystod yr 20 mlynedd diwethaf, credaf fod canran gynyddol o'r gyllideb yn cael ei dyrannu i'r mater hwn o ofalu am gasgliadau. Os cymharwch y ffigurau, credaf fod oddeutu 25 y cant yn cael ei ddyrannu nawr i gasgliadau, ac mae ffigur cyffelyb hefyd yn cael ei ddyrannu hefyd i arddangosfeydd a gweithgareddau addysgol— elfen gyhoeddus y gweithgarwch, os mynnwch.

Felly, mae cydbwysedd yno, ond gyda'r pwysau ar ein cyllidebau, credaf fod yn rhaid i ni hefyd ddod o hyd i atebion gwell i rai o'r materion hyn, ac yn sicr i geisio mynd i'r afael â'r math o faterion mynediad a amlinellwyd yn adroddiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol. Bydd angen i ni geisio dod o hyd i atebion sydd nid yn unig yn mynd i'r afael â mynediad, ond hefyd atebion sy'n mynd i'r afael â chyfathrebu â'r cyhoedd. Yn yr un modd, mae'r amgueddfa yn wynebu materion digon difrifol ynghylch ei hystâd, a rheoli'r ystâd—mae angen cryn fuddsoddi, y gallwn ei drafod yn ddiweddarach, os bydd angen. Fodd bynnag, mae'n amlwg fod yna bosibiliadau ac atebion: drwy fynd i'r afael â gwelliannau yn yr ystâd, gallwn hefyd fynd i'r afael hefyd â materion sy'n ymwneud â storio'r casgliadau a gofalu amdanynt yn iawn, felly, mae'n fater o ddod o hyd i'r atebion lluosog hyn. Yn sicr, nid yw storio o reidrwydd yn golygu nad yw casgliadau ar gael i'r cyhoedd. Mae'n rhaid i ni gael atebion a fydd yn rhoi mynediad i'r cyhoedd.

[5] **Janet Davies:** Diolch. Credaf y bydd rhai o'r Aelodau eraill am drafod manylion penodol, yn ddiweddarach yn y bore. Fodd bynnag, a gaf fi ofyn ar hyn o bryd, ymddengys eich bod wedi llwyddo i ostwng yr amcangyfrif o faint y casgliad o 7.5 miliwn o eitemau i 4.7 miliwn o eitemau. Sut y gwnaethoch chi hynny? Mae hynny'n gryn wahaniaeth.

Mr Houlihan: Gallaf roi ateb cyffredinol, ac yna, os oes arnoch angen rhagor o wybodaeth, bydd Dr Wiliam yn fodlon ei

Essentially, from a context point of view, this has happened, I think, in museums everywhere. As they have got to grips with the issue of identifying and documenting all of the objects in their collections, they have generally found that there are actually a smaller number of objects within the collections. This can be because of issues of poor record keeping in early years. There are classic examples of black holes in some museums' record keeping—at two of the museums that I worked in, the period from the 1930s to the 1950s was a sort of black hole in documentation. People were really just guessing how many objects were in the collections. There are also quite technical issues in relation to whether you should count a tray of 1,000 fruit flies as 1,000 objects, or is it really just a single object? Do you count a cabinet of fruit flies as one cabinet or 26 trays? There are all these sorts of issues, which, I think, as museums come to grips with the way in which they account for the objects in their collections, the numbers have tended to come down.

[6] **Jocelyn Davies:** How do you know that none of them have been stolen?

Mr Houlihan: There are a number of ways in which we ensure that. The first point—and I think that this is a fundamental point—is that security and the security systems that we have in the museum are essential to ensure that risk is minimised. So, it is about a risk management situation, and how you manage risk and how you assess that risk. We have very effective systems that meet international standards, because, bear in mind, not only are our collections going abroad, we are also borrowing from abroad. The recent Thomas Jones exhibition was an example of objects coming from Russia and from the United States.

So, security is very much at the forefront of what we do. In my experience, a high-risk area, if you like, is contractors in a building, which tends to create issues. Again, the National Museum of Wales has very rigorous systems for accompanying contractors around the site, for logging and recording, and a system of passes—those sorts of things. Therefore, there is that system, which is the first line of defence.

darparu. Yn y bôn, o safbwynt cyd-destun, mae hyn wedi digwydd, yn fy marn i, mewn amgueddfeydd ymhob man. Wrth iddynt fynd i'r afael â'r dasg o nodi a dogfennu'r holl wrthrychau yn eu casgliadau, maent wedi gweld yn gyffredinol fod llai o eitemau yn y casgliadau mewn gwirionedd. Gall hyn fod oherwydd i gofnodion gael eu cadw'n wael yn y blynyddoedd cynnar. Mae enghreifftiau clasurol o fylchau difrifol yng nghofnodion rhai amgueddfeydd—mewn dwy o'r amgueddfeydd lle bûm i'n gweithio, yr oedd y cyfnod rhwng y 1930au a'r 1950au megis twll du o ran dogfennaeth. Yr oedd pobl mewn gwirionedd yn dyfalu faint o eitemau a oedd yn y casgliadau. Mae materion eithaf technegol hefyd ynghylch a ddylech gyfrif hambwrdd o 1,000 o bryfed ffrwythau fel 1,000 o eitemau, neu ai un eitem ydyw mewn gwirionedd? A ydych yn cyfrif cist o bryfed ffrwythau fel un gist neu 26 hambwrdd? Mae llwyth o faterion fel hyn, yn fy marn i, ac wrth i amgueddfeydd fynd i'r afael â'r ffordd y maent yn cyfrif y gwrthrychau yn eu casgliadau, mae'r niferoedd wedi tueddu i ostwng.

[6] **Jocelyn Davies:** Sut wyddoch chi nad oes yr un ohonynt wedi'u dwyn?

Mr Houlihan: Mae nifer o ffyrdd i ni sicrhau hynny. Y pwynt cyntaf—a chredaf fod hwn yn bwynt sylfaenol—yw bod diogelwch a'r systemau diogelwch sydd gennym yn yr amgueddfa yn hanfodol i sicrhau cyn lleied o risg â phosibl. Felly, mae'n ymwneud â sefyllfa o reoli risg, a sut yr ydych yn rheoli risg a sut yr ydych yn asesu'r risg honno. Mae gennym systemau effeithiol iawn sy'n bodloni safonau rhyngwladol, oherwydd, cofiwch fod ein casgliadau nid yn unig yn mynd dramor, ond yr ydym hefyd yn benthg o wledydd tramor. Yr oedd arddangosfa am Thomas Jones yn ddiweddar yn enghraifft o eitemau'n dod o Rwsia ac o'r Unol Daleithiau.

Felly, mae diogelwch yn gwbl hanfodol i'r hyn a wnawn. O brofiad, maes risg uchel, os mynnwch, yw contractwyr mewn adeilad, sy'n tueddu i greu problemau. Eto, mae gan Amgueddfa Genedlaethol Cymru systemau cadarn iawn ar gyfer tywys contractwyr o gwmpas y safle, ar gyfer logio a chofnodi, a systemau o basiau—pethau fel hynny. Felly, mae'r system honno ar waith, sef y llinell amddiffyn gyntaf.

The second area should relate to other aspects, such as spot-checks on collections and, certainly, areas where we have identified that the objects are of high value, intellectually and financially. Those objects are quite often already on display, so they are being checked on a daily basis. Many objects are being checked through use by researchers, our own staff and so on, so there is a lot of checking going on. However, as the report points out, there is a sort of stock check or verification system, which we do some of, and the report indicates that we could do more on that.

[7] **David Melding:** Is it the experience of major museums that the estimate of their collections has gone down by roughly a third, which is very substantial, or, in our case, it is higher? Is there now an accepted methodology for counting collections? I was surprised by the example that you gave, because it struck me that, if you were counting fruit flies then you had 1,000, and if you were counting trays then you had one. I presume that the collection was fruit flies, not trays.

Mr Houlihan: It depends on the collection, actually. I was just trying to use that as a simple illustrative example of the situation. Certainly in the museums in which I have worked, the count of objects has generally gone down for the sort of reasons that I have described. I would not be able to answer that for every museum, but generally, that does seem to have been the case. It is partly due to one or two quite significant drivers. Much work, both internationally and nationally, has been done on establishing standardised systems of documentation, both through the vocabulary used to describe objects and through the systems for recording the levels of recording and such like. So a great deal of standardisation has come in, and the standard that is generally adopted, for example, in the UK, is the SPECTRUM standard, which has been developed by what was formally known as the Museums Documentation Association, which I should mention, as I am the chairman as well. So those systems have come in and, I think, as a result of that, there has been this standardisation of systems. Museums are notorious for the fact that they tend to look at data in different ways. In some areas there is

Dylai'r ail faes ymwneud ag agweddau eraill, fel gwirio casgliadau ar hap, ac yn sicr feysydd lle yr ydym wedi nodi bod y gwrthrychau'n rhai gwerthfawr iawn, yn ddeallusol ac yn ariannol. Caiff y gwrthrychau hynny'n aml eu harddangos eisoes, felly, maent yn cael eu harchwilio bob dydd. Mae nifer o wrthrychau'n cael eu harchwilio drwy gael eu defnyddio gan ymchwilyr, ein staff ein hunain, ac ati, felly, mae llawer o wirio'n digwydd. Fodd bynnag, fel y mae'r adroddiad yn ei ddangos, mae yna ryw fath o wirio stoc neu system wirio a wneir gennym yn rhannol, ac mae'r adroddiad yn nodi y gallem wneud mwy ynghylch hynny.

[7] **David Melding:** Ai profiad y prif amgueddfeydd yw bod yr amcangyfrif o'u casgliadau wedi gostwng tua thraean, sy'n sylweddol iawn, neu, yn eich achos chi, a yw'n uwch? A oes methodoleg a dderbynnir bellach ar gyfer cyfrif casgliadau? Yr oeddwn yn synnu at yr enghraifft a roesoch, oherwydd yr oedd yn fy nharo i, pe baech yn cyfrif pryfed ffrwythau, yna byddai gennych 1,000, a phe baech yn cyfrif hambyrddau, byddai gennych un. Yr wyf yn cymryd mai pryfed ffrwythau oedd y casgliad, nid hambyrddau.

Mr Houlihan: Mae'n dibynnu ar y casgliad, mewn gwirionedd. Yr oeddwn yn ceisio defnyddio hynny dim ond fel enghraifft eglurhaol syml o'r sefyllfa. Yn sicr, yn yr amgueddfeydd lle yr wyf wedi gweithio, mae nifer yr eitemau wedi gostwng yn gyffredinol am y math o resymau yr wyf wedi'u disgrifio. Ni fyddwn yn gallu ateb hynny ar gyfer pob amgueddfa, ond ar y cyfan, mae'n ymddangos mai dyna sydd wedi digwydd. Mae hyn yn rhannol oherwydd un neu ddau ysgogiad digon sylweddol. Mae llawer o waith, rhyngwladol a chenedlaethol, wedi'i wneud i sefydlu systemau dogfennu safonol, drwy'r eirfa a ddefnyddir i ddisgrifio gwrthrychau a thrwy'r systemau ar gyfer cofnodi lefelau cofnodi ac ati. Felly, mae llawer o safoni wedi digwydd, a'r safon a fabwysiadwyd fel arfer, er enghraifft, yn y DU yw'r safon SPECTRUM. Mae hon wedi'i datblygu gan yr hyn a arferai gael ei galw'n Gymdeithas Dogfennaeth Amgueddfeydd, y dylwn ei chrybwyll oherwydd mai fi hefyd yw'r cadeirydd. Felly, mae'r systemau hynny wedi'u cyflwyno, ac yn fy marn i, o ganlyniad i hynny mae'r safoni systemau hyn wedi digwydd. Mae

not standardisation, but in this area there has been standardisation, which, I think, as a result, has led to this reduction in the count.

[8] **Janet Davies:** If you have a tray of a number of objects, and it is counted as one item, would you notice if one or two of those objects went missing? It would not have to be 1,000 fruit flies, it could be 25 stones or something.

Mr Houlihan: Again, I could ask Dr Wiliam to go into a little more detail on the particular systems. However, in my experience, and from what I have observed, say, in the geology store at the national museum, there is information actually attached, quite often, to the tray or whatever, which gives you an indication of numbers, codes and so on that would indicate how many objects, broadly speaking, should be in there. Quite often, when you go into these cabinets, particularly if they are from the Edwardian or Victorian period, you will find that there will be an individual little label with this too. Perhaps Dr Wiliam could give you a bit more detail.

Dr Wiliam: Yes, an example might be a tray of Roman pottery sherds. They might be what the trade calls 'body sherds', that is, they have no distinguishing features at all and so they are counted, and properly so, as 'a tray of Roman body sherds', and that is fine. However, if they were in any way marked—if they were rim sherds, for example, which you can use to date the pottery—then greater attention will be paid to those, and they will be counted individually. So, as Mike says, it is very much a case of treating an object, or a group, in its own right. A tray of fruit flies, which Mike alluded to, would have been pinned in place so that you could instantly see if one were missing. So, it is treating, as I say, an object on its own virtues, if you like.

[9] **Janet Davies:** Thank you. Mick, do you have a question? This seems to be raising a lot of interest.

[10] **Mick Bates:** It certainly does raise some interesting questions. However, I would just

amgueddfeydd yn enwog am dueddu i edrych ar ddata mewn gwahanol ffyrdd. Mewn rhai meysydd nid oes safoni, ond yn y maes hwn mae safoni wedi digwydd, sydd, yn fy marn i, o ganlyniad wedi arwain at y gostyngiad hwn yn y niferoedd.

[8] **Janet Davies:** Os oes gennych hambwrdd o nifer o wrthrychau, a hwnnw'n cael ei gyfrif fel un eitem, a fyddech yn sylwi pe bai un neu ddau o'r gwrthrychau hynny'n diflannu? Ni fyddai'n rhaid iddo fod yn 1,000 o bryfed ffrwythau: gallai fod yn 25 o gerrig, neu rywbeth.

Mr Houlihan: Eto, gallwn ofyn i Dr Wiliam roi ychydig mwy o fanylion am y systemau penodol. Fodd bynnag, yn fy mhrofiad i, ac o'r hyn yr wyf wedi'i weld, dyweder, yn y storfa ddaeaeg yn yr amgueddfa genedlaethol, mae gwybodaeth yn aml wedi ei chysylltu wrth yr hambwrdd neu beth bynnag, sy'n awgrymu niferoedd, codau ac ati a fyddai'n nodi faint o wrthrychau, yn fras, ddylai fod yno. Yn eithaf aml, wrth fynd i mewn i'r cistiau hyn, yn enwedig os ydynt o gyfnod Edward neu Fictoria, byddwch yn gweld bod label fach unigol hefyd gyda'r eitem. Efallai y gall Dr Wiliam roi ychydig mwy o fanylion i chi.

Dr Wiliam: Ie, gallai hambwrdd o deilchion crochenwaith Rhufeinig fod yn enghraifft. Gallent fod yr hyn y mae'r diwydiant yn ei alw'n 'deilchion corff', hynny yw, nid oes iddynt nodweddion unigryw o gwbl, ac felly cânt eu cyfrif, yn hollol gywir, fel 'hambwrdd o deilchion corff Rhufeinig', ac mae hynny'n iawn. Fodd bynnag, pe bai marciau o unrhyw fath arnynt—pe baent yn deilchion ymyl, er enghraifft, y gellir eu defnyddio i ddyddio'r crochenwaith—yna rhoir mwy o sylw i'r rhain, a byddant yn cael eu cyfrif ar wahân. Felly, fel y dywed Mike, i raddau helaeth mae'n fater o drin gwrthrych, neu grŵp, yn unigol. Byddai hambwrdd o bryfed ffrwythau, y cyfeiriodd Mike ato, wedi'u pinio yn eu lle a gallech weld ar unwaith pe bai un ar goll. Felly, mae'n fater o drin gwrthrych, fel y dywedais, ar sail ei rinweddau ei hun, os mynnwch.

[9] **Janet Davies:** Diolch. Mick, a oes gennych gwestiwn? Ymddengys bod hyn yn ennyn llawer o ddi-ddordeb.

[10] **Mick Bates:** Mae'n sicr yn codi cwestiynau diddorol iawn. Fodd bynnag,

like to return to the question asked previously about what would happen if something were stolen. This raises an interesting question in my mind about how you insure all your art and artefacts. What sort of insurance policies do you have against things being stolen or damaged within your own property?

Mr Houlihan: We do not have insurance because it is covered under the indemnity scheme, which would mean that, for example, if a Monet or a Manet were stolen—I am inviting disaster here, I know—destroyed or damaged, we are in exactly the same situation as Windsor Castle, and we would have to apply to the Assembly for funding. Obviously, we are not going to replace that object, because it is irreplaceable, but there might be a value consideration. We might be able to replace it with another Van Gogh that was perhaps painted at the same time or which is part of the same group, or is another portrait, or whatever.

[11] **Mick Bates:** I will move on to discuss, if I may, the building itself. Are your own buildings insured?

Mr Houlihan: No. It is the Windsor Castle situation.

[12] **Mick Bates:** Absolutely. So, in other words, nothing is insured?

Mr Houlihan: No. I mean, this is standard Government practice for national museums.

[13] **Mick Bates:** I see. But, of course, you would have employers' and public liability insurance?

Mr Houlihan: Yes, and insurance for vehicles and so on. (1)

[14] **Mick Bates:** What about when things are moved from one place to another?

Mr Houlihan: Well, it depends on the circumstances in which they are being moved. If we were moving an object from Cathays park to, say, Llanberis, then the same rules would apply: we are not insured. If, however, we were sending an object or a group of objects, as we have done recently,

hoffwn ddychwelyd at y cwestiwn a ofynnwyd yn gynharach ynglŷn â beth fyddai'n digwydd pe bai rhywbeth yn cael ei ddwyn. Mae hyn yn arwain at gwestiwn diddorol yn fy marn i ynglŷn â sut yr ydych yn yswirio'ch holl weithiau celf ac arteffactau. Pa fath o bolisiau yswiriant sydd gennych yn erbyn pethau'n cael eu dwyn neu eu difrodi yn eich adeiladau chi eich hun?

Mr Houlihan: Nid oes gennym yswiriant oherwydd bod hynny wedi'i gynnwys dan y cynllun indemniad, a fyddai'n golygu, er enghraifft, pe bai gwaith gan Monet neu Manet yn cael ei ddwyn—fe wn fy mod yn temptio ffawd yn awr—ei ddifa neu ei ddifrodi, yr ydym yn yr union sefyllfa â Chastell Windsor, a byddai'n rhaid i ni wneud cais i'r Cynulliad am gyllid. Yn amlwg, ni fyddwn yn gallu cael rhywbeth yn lle'r gwrthrych hwnnw, oherwydd ei fod yn unigryw, ond efallai y byddai ei werth yn cael ei ystyried. Efallai y gallem gael Van Gogh arall yn ei le wedi ei beintio o bosibl yn yr un cyfnod neu sy'n rhan o'r un grŵp, neu sy'n bortread arall, neu beth bynnag.

[11] **Mick Bates:** Yr wyf am symud ymlaen i drafod yr adeilad ei hun, os caf fi. A yw'ch adeiladau eich hun wedi'u hyswirio?

Mr Houlihan: Na. Mae'n union fel sefyllfa Castell Windsor.

[12] **Mick Bates:** Yn hollol. Felly, mewn geiriau eraill, nid oes dim wedi'i yswirio?

Mr Houlihan: Na. Mae hyn yn arfer safonol gan y Llywodraeth ar gyfer amgueddfeydd cenedlaethol.

[13] **Mick Bates:** Mi welaf. Ond wrth gwrs, byddai gennych yswiriant cyflogwyr ac atebolrwydd cyhoeddus?

Mr Houlihan: Byddai, ac yswiriant ar gyfer cerbydau ac ati. (1)

[14] **Mick Bates:** Beth am gludo pethau o le i le?

Mr Houlihan: Wel, mae'n dibynnu dan ba amgylchiadau maent yn cael eu symud. Pe baem yn symud gwrthrych o Barc Cathays i Lanberis, dyweder, yna byddai'r un rheolau'n gymwys: nid ydym wedi'n hyswirio. Fodd bynnag, pe baem yn anfon gwrthrych neu grŵp o wrthrychau, fel y gwnaethom yn

to, say, Pittsburgh for exhibition, then the responsibility for insurance becomes the borrower's.

[15] **Mick Bates:** I see. Thank you, that is very interesting.

[16] **Janet Davies:** I would just like to clarify this. Although it is not a direct analogy—it is slightly different—when we looked at clinical negligence, we found that the NHS in Wales has to set up its own pool of money to cover any clinical negligence claims, as it would not get insurance from outside. I think that what is happening with the museum is not totally unusual.

[17] **Leighton Andrews:** May I just ask if you have any items whose ownership is disputed?

Mr Houlihan: I am certainly not aware of any objects that are disputed. I think that there are a number of scenarios in which disputes, if you like, can arise. One is a disputed claim to title, say, within a family. Those are not unknown. Certainly, as far as I am aware, there are no circumstances like that within the national museum's collection. Secondly, disputes can arise in relation to the repatriation of objects, human remains, or objects of ritual or ceremonial significance to certain indigenous peoples. Again, I am not aware of that situation arising in Wales, partly because the museum does not have an ethnographic collection. The third area where you can get these sorts of situations arising—this is more recent—is particularly in relation to victims of the Holocaust, where families of victims are, for example, reclaiming paintings that now reside in western European and American museums, which were looted by the German army, or whatever, during the second world war. Again, in common with other national museums, the museum will have done a check through the acquisition of its art collections, and it would be my understanding—and hopefully Eurwyn can confirm this—that there are no questions of any doubt about how these paintings came into the country, or anything like that, and that they have a full provenance that does not link them back to a black hole in their history, if you like. So, in summary, I am not aware of any such situation.

ddiweddar, i Pittsburgh i'w harddangos, er enghraifft, yna cyfrifoldeb y benthycwr fydd yr yswiriant.

[15] **Mick Bates:** Mi welaf. Diolch, mae hynny'n ddiddorol iawn.

[16] **Janet Davies:** Hoffwn gael eglurhad ar hyn. Er nad yw'n gymhariaeth uniongyrchol—mae ychydig yn wahanol—pan oeddem yn edrych ar esgeulustod clinigol, gwelsom fod yn rhaid i'r GIG yng Nghymru sefydlu ei gronfa ei hun o arian i dalu am unrhyw hawliadau esgeulustod clinigol, am na fyddai'n cael yswiriant o'r tu allan. Credaf nad yw'r hyn sy'n digwydd gyda'r amgueddfa yn hollol anarferol.

[17] **Leighton Andrews:** A gaf fi ofyn a oes unrhyw eitemau lle mae anghydfod ynglŷn â pherchnogaeth?

Mr Houlihan: Nid wyf yn ymwybodol o unrhyw anghydfod ynglŷn â gwrthrychau. Credaf fod nifer o sefyllfaoedd lle gall anghydfod, os dymunwch, ddigwydd. Un yw anghydfod ynglŷn â hawl i deitl, er enghraifft, o fewn teulu. Nid yw hyn yn anghyffredin. Yn sicr, cyhyd ag y gwn, nid oes unrhyw amgylchiadau felly yng nghasgliad yr amgueddfa genedlaethol. Yn ail, gall anghydfodau godi ynghylch dychwelyd gwrthrychau, gweddillion cyrff, neu wrthrychau sydd o bwysigrwydd defodol neu seremonïol i bobl gynhenid penodol i'w mamwlad. Eto, nid wyf yn ymwybodol o'r sefyllfa honno'n digwydd yng Nghymru, yn rhannol oherwydd nad oes gan yr amgueddfa gasgliad ethnograffig. Mae'r trydydd maes lle gall sefyllfaoedd fel hyn godi—mae hyn yn fwy diweddar—yn ymwneud yn benodol â dioddefwyr yr Holocost, lle mae teuluoedd y sawl a ddioddefodd, er enghraifft, yn adhawlio peintiadau a ladratawyd gan fyddin yr Almaen, neu bwy bynnag, yn ystod yr ail ryfel byd, a'r rheiny bellach mewn amgueddfeydd yn Ewrop neu America. Eto, fel amgueddfeydd cenedlaethol eraill, bydd yr amgueddfa wedi archwilio'r broses o gaffael ei chasgliadau celf ei hun, ac o'r hyn a ddeallaf—a gobeithio y gall Eurwyn gadarnhau hyn—nid oes unrhyw amheuaeth sut daeth y lluniau hyn i'r wlad, neu unrhyw beth felly, a bod ganddynt darddiad llawn nad yw'n eu cysylltu â rhyw gyfnod du yn eu hanes, os mynnwch. Felly, i grynhoi, nid wyf yn ymwybodol o unrhyw sefyllfa o'r fath.

[18] **Leighton Andrews:** Right. In that case, I will take you to paragraph 2.6 of the report, which deals with the definitions of standards of record keeping. You believe that your inventory-level standard is a higher standard than is the case for much of the museums and galleries sector as a whole. Why have you set a higher standard?

Mr Houlihan: I will begin by just briefly describing the standard, if I may. The SPECTRUM standard, which the museum actually exceeds, has a first threshold, if you like, which is called entry-level information. Essentially, that is designed to establish title to the object, coming back to your earlier question in a sense. That would lead anyone who is pursuing an issue of title, say, to a historical file within the institution, which would contain correspondence that would clearly establish the museum's title and claim to that object. So it establishes title, and it will establish a description, that is, basic descriptors of the objects, and the location and date of acquisition. So it is fundamental information. The National Museums and Galleries of Wales's manual records exceed that standard.

Secondly, the museum has established what it calls an inventory-level record, which adds further lines to that information in relation to, say, artist, material, size and weight, which, from a curatorial point of view, is very useful information to have. I will give you a specific example: if I am putting on an exhibition, it is very important at an early stage to have information on size and weight, for obvious reasons in relation to how many objects you can get in a showcase, and so on. So having that information on a record, I think, is very important and extremely helpful. It is not just a collections management issue, it actually assists other functional areas within the institution to do their jobs more effectively.

So, in establishing that slightly higher standard, I think that the museum is really seeking to be more efficient, if you like. Again, Eurwyn might be able to explain the particular history of why we have gone down that route.

Dr Wiliam: Ten or 15 years ago, we consciously took this decision, and it is tied in with the decision that we then took to computerise our documentation. Computerisation is a product of two things, I guess. One is the availability of the technology, but also it does enable one very markedly to answer questions from the public or from researchers far more efficiently, quickly and

[18] **Leighton Andrews:** Iawn. Os felly, yr wyf am gyfeirio at baragraff 2.6 yn yr adroddiad, sy'n delio â'r diffiniadau o safonau cadw cofnodion. Yr ydych yn credu bod eich safon lefel-rhestr yn uwch nag sy'n digwydd mewn llawer o'r sector amgueddfeydd ac orielau yn ei gyfanrwydd. Pam rydych wedi gosod safon uwch?

Mr Houlihan: Yr wyf am ddechrau drwy ddisgrifio'r safon yn gryno, os caf. Mae i'r safon SPECTRUM - ac mae'r amgueddfa yn ei rhagori ar honno mewn gwirionedd - drothwy cyntaf, os mynnwch, a elwir yn wybodaeth lefel-mynediad. Yn y bôn, mae hon wedi'i chynllunio i sefydlu teitl y gwrthrych, sy'n dod yn ôl at eich cwestiwn cynharach ar ryw ystyr. Byddai hynny'n arwain unrhyw un sydd ar drywydd teitl, dyweder, at ffeil hanesyddol yn y sefydliad, a fyddai'n cynnwys gohebiaeth a fyddai'n sefydlu'n glir deitl a hawl yr amgueddfa i'r gwrthrych hwnnw. Felly, mae'n sefydlu teitl, a bydd yn sefydlu disgrifiad, hynny yw, disgrifyddion sylfaenol o'r gwrthrychau, a lleoliad a dyddiad ei gaffael. Felly, mae'n wybodaeth sylfaenol. Mae cofnodion llaw Amgueddfeydd ac Oriolau Cenedlaethol Cymru yn rhagori ar y safon honno.

Yn ail, mae'r amgueddfa wedi sefydlu'r hyn a elwir yn gofnod lefel-rhestr, sy'n ychwanegu llinellau pellach at y wybodaeth honno o ran, er enghraifft, artist, deunydd, maint a phwysau, sydd o safbwynt curaduriaeth yn wybodaeth ddefnyddiol iawn i'w chael. Dyma i chi enghraifft benodol: os wyf yn trefnu arddangosfa, mae'n bwysig iawn cael gwybodaeth am faint a phwysau yn gynnar iawn, am resymau amlwg ynghylch sawl gwrthrych y gellir eu cael mewn cwpwrdd arddangos, ac ati. Felly, credaf fod cael cofnod o'r wybodaeth honno yn bwysig iawn ac yn ddefnyddiol dros ben. Nid mater o reoli casgliadau'n unig ydyw: mae mewn gwirionedd yn cynorthwyo meysydd gweithredu eraill o fewn y sefydliad i gyflawni eu swyddi'n fwy effeithiol.

Felly, wrth sefydlu'r safon honno sydd ychydig yn uwch, credaf fod yr amgueddfa mewn gwirionedd yn ceisio bod yn fwy effeithlon, os mynnwch chi. Eto, efallai y gall Eurwyn egluro'n benodol pam yr ydym wedi dilyn y llwybr hwnnw.

Dr Wiliam: Deg neu 15 mlynedd yn ôl, gwnaethom y penderfyniad hwn yn fwriadol, ac mae wedi'i gysylltu â'r penderfyniad a wnaed gennym wedyn i roi ein dogfennaeth ar gyfrifiadur. Mae cyfrifiaduro yn ganlyniad i ddau beth, mae'n debyg gen i. Y peth cyntaf yw'r dechnoleg sydd ar gael, ond hefyd mae'n galluogi rhywun yn bendant iawn i ateb cwestiynau gan y

thoroughly. So there were two major drivers for doing that. We could have chosen in 1990 just to computerise our existing documentation, which would merely have translated that paper record onto a computer. We thought that that was probably a waste of resources and that we should, at the same time, seek to enhance that record, and that is why, for the last 15 years or so, we have worked at this enhanced level. As Mike has said, we have a paper record that meets the national requirements for all our collections. We consciously set out on this route to make a step change in the amount of information available to ourselves and to the public.

Mr Houlihan: I will add to that, if I may, to say that the existence of a manual documented record for every object in the museum is—I do not want to appear smug, but it is almost unique in museums. That is a very high standard to have achieved. Certainly no other museum that I have worked in has that, and in one museum where I worked we had to add no number numbers, if you can follow that, to objects that had come into the museum and had not been recorded for something like 20 years. So I think that to have that record, which establishes title to those objects and provides location, while we would have to recognise that it is not efficient in terms of information retrieval, it does provide a fundamental core record, which is absolutely important.

[19] **Leighton Andrews:** So, there is no other museum that you could think of or point to that has gone down this kind of route?

Mr Houlihan: What I said was that I have never worked in a museum that has had a full manual documentary record of their collections. There might be smaller museums, I think, where you would find this. However, I can point to collections management reports on museums, for example, Museum Victoria and national museums in Australia. There have been reports on museums in Arizona, for example, and there was an Audit Office report on the English national museums some years ago. They all pointed to these black holes within record keeping.

[20] **Leighton Andrews:** Regarding the inventory level that you would like your record keeping to be at, so far, only about a third of your items are categorised at that level. That involves computerisation of course. We just heard from Dr Wiliam that he started computerisation in 1990. So, that has been 14 years now, and you are only

cyhoedd neu gan ymchwilyr lawer yn fwy effeithlon, cyflym a thrylwyr. Felly, yr oedd dau brif sbardun i wneud hynny. Yn 1990 gallem fod wedi dewis gosod ein dogfennaeth bresennol yn unig ar gyfrifiadur, a fyddai'n syml wedi trosglwyddo'r cofnodion papur i gyfrifiadur. Yr oeddem yn credu bod hynny o bosibl yn wastraff adnoddau ac y dylem, ar yr un pryd, geisio gwella'r cofnod hwnnw. A dyna pam, ers oddeutu 15 mlynedd, yr ydym wedi gweithio ar y lefel uwch hon. Fel y dywedodd Mike, mae gennym gofnod papur sy'n bodloni'r gofynion cenedlaethol ar gyfer ein holl gasgliadau. Bu i ni ddewis y llwybr hwn yn fwriadol i wneud newid sylweddol ym maint y wybodaeth sydd ar gael i ni ac i'r cyhoedd.

Mr Houlihan: Yr wyf am ychwanegu at hynny, os caf, i ddweud bod bodolaeth cofnod wedi ei ddogfennu â llaw ar gyfer pob gwrthrych yn yr amgueddfa—nid wyf am ymddangos yn hunanfodlon - ond mae bron yn unigryw mewn amgueddfeydd. Mae hon yn safon uchel iawn i ni fod wedi ei chyflawni. Yn sicr, nid yw hynny ar gael yn yr un amgueddfa arall yr wyf wedi gweithio ynddi, ac mewn un amgueddfa yr wyf wedi gweithio ynddi, yr oedd yn rhaid i ni ychwanegu rhifau dim rhif, os gallwch ddilyn hynny, at wrthrychau a oedd wedi dod i mewn i'r amgueddfa a heb eu cofnodi ers oddeutu 20 mlynedd. Felly, credaf fod cael y cofnod hwnnw, sy'n sefydlu teitl y gwrthrychau hynny a darparu lleoliad, er y byddai'n rhaid i ni gydnabod nad yw'n effeithlon o ran adfer gwybodaeth, yn darparu cofnod craidd sylfaenol, sy'n hollbwysig.

[19] **Leighton Andrews:** Felly, ni allwch enwi neu feddwl am unrhyw amgueddfa arall sydd wedi dilyn y math hwn o drywydd?

Mr Houlihan: Yr hyn a ddywedais oedd nad wyf fi erioed wedi gweithio mewn amgueddfa sydd â chofnod dogfennol llaw llawn o'i chasgliadau. Efallai bod amgueddfeydd llai, credaf, lle byddech yn gweld hyn. Fodd bynnag, gallaf gyfeirio at adroddiadau rheoli casgliadau am amgueddfeydd, er enghraifft, Amgueddfa Fictoria ac amgueddfeydd cenedlaethol yn Awstralia. Cafwyd adroddiadau ar amgueddfeydd yn Arizona, er enghraifft, ac yr oedd adroddiad gan y Swyddfa Archwilio ar amgueddfeydd cenedlaethol Lloegr rai blynyddoedd yn ôl. Yr oeddynt i gyd yn cyfeirio at y tyllau du hyn ym maes cadw cofnodion.

[20] **Leighton Andrews:** O ran y lefel rhestr yr ydych am i'ch system gofnodi ei bodloni, hyd yma dim ond oddeutu traean o'ch eitemau sydd wedi'u categorio ar y lefel honno. Mae hynny'n golygu cyfrifiaduro, wrth gwrs. Clywsom Dr Wiliam yn dweud ei fod wedi dechrau cyfrifiaduro yn 1990. Felly, mae hynny

at 34 per cent. Why has that been so slow?

Mr Houlihan: I think that when you look at the numbers of objects that are involved in those figures they are quite considerable. We are talking about over 1 million objects that have been brought up to that sort of inventory standard. Secondly, the areas that have been prioritised for this work have included, as I think that I indicated earlier, those objects of high intellectual and financial value for the museum and those that are being used most frequently within the collections. Thirdly, I think that the record will show that the museum has developed a documentation unit, which has taken time to set up. It has also taken time to put in the sort of infrastructure that is necessary in order to deal with this. The museum is currently documenting to inventory standard some 200,000 objects a year. However, I think that you also have to add to that, again, the fact that over 20 per cent of the collection has also been catalogued. That is also a very high standard for a museum and it represents a lot of objects. The catalogue standard is of a very high order in terms of the intellectual information that those records contain. It really reflects the research and all of the information that can be gleaned about an object and about the connections that can be made with that object to considerable depth, so that it could virtually be taken and just put on display with minimal further research work. So, there are two strands to this. There is the inventory level, and there is the catalogue level taking place.

I think that in terms of priorities and such like, quite often, what might drive the museum is the need for catalogue level information in order to feed into exhibitions, loans programmes, the partnership programme, and so on. So that sort of level of information is very important. I think also, maybe just looking towards the future as well, that we are going to face some issues—and I think the report is very helpful in this—in terms of looking at our priorities for documentation. I think that we do seriously have to ask ourselves whether we want to bring every single one of those 4.7 million objects up to inventory standard. We have to ask ourselves why would we want to do that. Maybe it would be more important to develop some more cataloguing or, I suspect even more important, given the interdisciplinary nature of our collections and some of the themes that we will be tackling, would be to see how we can create more of a relational database so that if, for the sake of argument, you are putting on an exhibition on landscape in Wales, you can go to those records and you will get information from across the collections that will be relevant and will feed into that. I think that that is perhaps the communication, public-driven type of use of technology that we have to look for and, similarly,

ers 14 mlynedd bellach, a dim ond 34 y cant sydd wedi'i wneud. Pam mae hynny wedi bod mor araf?

Mr Houlihan: Credaf wrth i ni edrych ar nifer y gwrthrychau sy'n gysylltiedig â'r ffigurau hynny eu bod yn eithaf sylweddol. Yr ydym yn siarad am dros 1 filiwn o wrthrychau sydd wedi'u codi i safon rhestr fel honno. Yn ail, mae'r meysydd sydd wedi'u blaenoriaethu ar gyfer y gwaith hwn wedi cynnwys, fel yr wyf yn credu i mi sôn yn gynharach, y gwrthrychau hynny o werth deallusol ac ariannol uchel i'r amgueddfa a'r rheiny sy'n cael eu defnyddio amlaf yn y casgliadau. Yn drydydd, credaf y bydd y cofnod yn dangos bod yr amgueddfa wedi datblygu uned ddogfennaeth, sydd wedi cymryd amser i'w sefydlu. Mae hefyd wedi cymryd amser i greu'r math o seilwaith sy'n angenrheidiol i ddelio â hyn. Ar hyn o bryd, mae'r amgueddfa'n dogfennu oddeutu 200,000 o wrthrychau y flwyddyn i safon rhestr. Fodd bynnag, credaf fod yn rhaid i chi hefyd ychwanegu at hynny, eto, y ffaith fod dros 20 y cant o'r casgliad hefyd wedi'i gatalogio. Mae honno hefyd yn safon uchel iawn ar gyfer amgueddfa, ac yn cynrychioli nifer o eitemau. Mae'r safon gatalog yn un uchel iawn o ran y wybodaeth ddeallusol sydd yn y cofnodion hynny. Mae'n adlewyrchu'n wirioneddol yr ymchwil a'r holl wybodaeth y gellir eu casglu am eitem ac am y cysylltiadau y gellir eu gwneud â'r gwrthrych hwnnw yn drylwyr iawn, fel y gellid ei gymryd a'i arddangos fwy neu lai heb fawr ddim gwaith ymchwil pellach. Felly, mae dwy elfen i hyn. Mae'r lefel rhestr, ac mae'r lefel catalog ar waith.

Credaf, o ran blaenoriaethau ac ati, yn aml iawn yr hyn a allai yrru'r amgueddfa yw'r angen am wybodaeth ar lefel catalog er mwyn cyfrannu at arddangosfeydd, rhaglenni benthyciadau, y rhaglen bartneriaeth, ac ati. Felly, mae lefel gwybodaeth o'r fath yn bwysig iawn. Credaf hefyd, wrth edrych tua'r dyfodol efallai yn ogystal, ein bod yn mynd i wynebu rhai pynciau—a chredaf fod yr adroddiad yn ddefnyddiol iawn yn hyn—o ran edrych ar ein blaenoriaethau ar gyfer dogfennu. Credaf fod yn rhaid i ni ofyn i ni ein hunain o ddiffrif a ydym am ddod â phob un o'r 4.7 miliwn o wrthrychau hynny i fyny i safon rhestr. Mae'n rhaid i ni ofyn i ni ein hunain pam y byddem am wneud hynny. Efallai y byddai'n bwysicach datblygu mwy o gatalogio neu, yn bwysicach fyth o bosibl, o ystyried natur rhyngddisgyblaethol ein casgliadau a rhai o'r themâu y byddwn yn mynd i'r afael â hwy, i weld sut y gallwn greu cronfa ddata fwy perthynol. Wedyner enghraifft, os ydych yn cynnal arddangosfa ar dirwedd yng Nghymru, gallwch gyfeirio'n ôl at y cofnodion hynny a chewch wybodaeth o'r casgliadau i gyd a fydd yn berthnasol ac yn ychwanegu at hynny. Credaf efallai mai dyna'r math o ddefnydd cyfathrebu o dechnoleg yn cael ei ysgogi gan y cyhoedd y

in terms of putting that sort of information onto the web. So, I think that might drive a slightly different approach to documentation.

[21] **Leighton Andrews:** You have raised many further questions, but that was a very helpful answer. Just a basic question. Do you think that you are on target for the next financial year to reach your 42 per cent at inventory standard?

Mr Houlihan: I believe that we are on target for that. We would have to document 1.65 million objects over the next 10 years to document the collection to catalogue and inventory standard, so I think that, as the report suggests in one of the recommendations, we do need to look at that and see if we can in fact do something towards achieving that and maybe bring it down in some way.

However, again, this comes back to what I was indicating earlier about the sort of solutions we find. My own belief is that the priorities, if you want a running order, are securing the collections, caring for the collections, particularly in relation to storage—and I think that we need to do a condition survey of the collections, looking at the precise condition of the objects—then documentation, and, obviously, access. Trying to be pragmatic about this, the reality is that museums tend to be rather access driven. People want exhibitions, you need to refresh your products, you need to get more visitors in, and such like. So, finding solutions that hit a number of those areas will be important. I will give you a specific example relating to storage which we can show: we have just had a report done in relation to storage issues and, if we were to adopt an approach whereby, say, our furniture collection, which is currently housed at St Fagans, was put into an extension of an existing storage facility, public access would be created and we would hit quite a number of buttons, because not only would be verifying and stock-checking the collection, we would be putting it into better storage conditions, so we would be dealing with the preventative conservation issue, ensuring the long-term care of the objects. We would also document the collection at the same time, plus we would provide public access to the collection and, at the same time, we would be refreshing our product, if you like, at St Fagans: there would

mae'n rhaid i ni geisio'i gael, ac yn yr un modd o ran ceisio rhoi gwybodaeth o'r fath ar y we. Felly, credaf y gallai hynny ysgogi agwedd ychydig yn wahanol at ddogfennu.

[21] **Leighton Andrews:** Yr ydych wedi codi nifer o gwestiynau pellach, ond yr oedd hwnnw'n ateb defnyddiol iawn. Un cwestiwn sylfaenol. A ydych yn credu eich bod o fewn eich targed am flyddyn ariannol nesaf i gyrraedd eich safon rhestr o 42 y cant?

Mr Houlihan: Credaf ein bod o fewn ein targed ar gyfer hynny. Byddai'n rhaid i ni ddogfennu 1.65 miliwn o eitemau yn ystod y 10 mlynedd nesaf i ddogfennu'r casgliad i gatalog ac i safon rhestr. Felly, fel y mae'r adroddiad yn ei awgrymu yn un o'r argymhellion, credaf fod angen i ni edrych ar hynny i weld a allwn mewn gwirionedd wneud rhywbeth tuag at gyflawni hynny ac efallai ei ostwng mewn rhyw ffordd.

ddilyn yw digido, catalogio, neu beth bynnag y bo, yn hytrach na cheisio cynhyrchu rhestr gyfrifiadurol o bob un gwrthrych yn y casgliad. O ran y ffactorau fydd yn llywio'r sefydliad, efallai y bydd blaenoriaeth uwch i wneud y pethau eraill hynny. O dipyn i beth, nid oes gennyf amheuaeth na fydd pob eitem yn y casgliad yn cael eu cyfrifiaduro.

[44] **Jocelyn Davies:** Felly, beth yr ydych yn ei wneud i sicrhau bod y cofnodion llaw sydd gennych ar hyn o bryd yn cael eu casglu ynghyd a'u bod yn ddiogel, yn gyflawn ac yn gyfredol?

Mr Houlihan: Cedwir y cofnodion llaw—ac, eto, gall Eurwyn gywiro hyn—yn ddiogel. Mae coffrau gwrthdan, cabinetau a phethau felly yn yr amgueddfa; maent yn ddiogel. Felly, o'r safbwynt hwnnw, maent yn cael eu cadw'n ddiogel. Nodir meysydd yn y casgliad sydd i gael blaenoriaeth o ran eu cyfrifiaduro, felly mae'r cofnodion hynny'n cael eu cyfrifiaduro. Felly, credaf y byddai'n wir dweud bod diogelwch y cofnodion yn cael ei gynnal, a bod 200,000 y flwyddyn yn cael eu cyfrifiaduro ar hyn o bryd, er y gallem ystyried cynyddu hynny, yn fy marn i. Mae'r cofnodion hynny yno.

[45] **Jocelyn Davies:** Felly pa mor realistig yw eich amcangyfrif o'r costau o £1.65 miliwn i fynd i'r afael â'r ôl-groniad o ran curaduriaeth? A yw hynny'n realistig?

Mr Houlihan: Yr oedd hynny'n destun astudiaeth a wnaed gan Dr Wiliam, a oedd yn seiliedig ar asesiad llawn.

Dr Wiliam: Oedd. Mae'n debyg mai hwnnw oedd y model Rolls Royce, os mynnwch chi. Byddai hynny nid yn unig wedi cyfrifiaduro ein holl gofnodion, ond hefyd byddai wedi catalogio ein holl gofnodion. Felly mae hynny'n rhywbeth y mae pob amgueddfa'n ceisio'i wneud a, hyd yma, nid oes llawer wedi gallu gwneud hynny. Felly, fel y dywedais, dyna fyddai'r model Rolls Royce, ac amcangyfrifwyd y byddai hynny'n costio oddeutu £1.6 miliwn.

[46] **Jocelyn Davies:** Mae'n rhaid bod y gwaith o wneud hyn yn eithaf llafurus, a byddwn yn dyfalu bod curaduron yn arbenigwyr ac yn gymwys iawn. A oes gennych ddigon o guraduron i wneud hyn?

Mr Houlihan: Mae'n rhaid i mi ddweud ‘nac

oes’.

[47] **Jocelyn Davies:** How many do you have?

Mr Houlihan: I think that if you look at the way in which this sort of process happens, a lot of the work on transferring those manual records into a computerised inventory format is, essentially, a sort of copying process. So it can be done by documentation officers, who might be qualified natural historians, but would not, for the sake of argument, be classified as curators—they are not developing a collection, and are not researching a collection. They have a dedicated job of transferring these records. The role of the curator is very much to do a quality check, if you like, on those records, ensuring that descriptors and the vocabulary used are correct, and that we are dealing with a porringer and not with a pot—those sorts of things. That is where the curator’s role is carried out. The role of the curator really is directed towards the areas of developing the collections, researching the collections, interpreting them as a result of that research and, for many of the curators, not only being involved in publication but also in exhibition communication activities, communicating those stories and objects. So it is quite a high-level activity. Where the curator becomes more involved in the process, I suppose, is in relation to the catalogue record, if you like, where it is only the curator that can do the catalogue record. However, the physical task of data entry can be done by a more junior member of staff.

[48] **Mick Bates:** Continuing on paragraph 12.12, you have mentioned your review of targets for documentation and curation levels. What progress have you made on your review of targets for documentation and curation levels?

Mr Houlihan: Sorry, which paragraph?

[49] **Mick Bates:** Paragraph 12.12. Sorry, it is 2.12. I do beg your pardon. It is in reference to your review of targets for documentation and curation levels. What progress have you made on reviewing those targets?

Mr Houlihan: The museum has had a

[47] **Jocelyn Davies:** Faint sydd gennyh?

Mr Houlihan: Credaf, os ydych yn edrych ar y ffordd y mae’r math hwn o broses yn digwydd, mai rhyw fath o broses o gopïo yw llawer o’r gwaith ar drosglwyddo’r cofnodion llaw hynny i fformat rhestr gyfrifiadurol. Felly gellir ei wneud gan swyddogion dogfennu, a allai fod yn naturiaethwyr cymwys, ond na fyddent, er enghraifft, yn cael eu dosbarthu fel curaduron—nid ydynt yn datblygu casgliad, ac nid ydynt yn ymchwilio i gasgliad. Mae ganddynt swydd benodol, sef trosglwyddo’r cofnodion hyn. Swyddogaeth y curadur yw archwilio ansawdd y cofnodion hynny, os mynnwch chi, gan sicrhau bod y disgrifiadau a’r eirfa a ddefnyddir yn gywir, a’n bod yn delio â dysgl ac nid powlen—pethau felly. Dyna lle y cyflawnir swyddogaeth y curadur. Mae swyddogaeth y curadur mewn gwirionedd yn ymwneud â meysydd datblygu’r casgliadau, ymchwilio i’r casgliadau, eu dehongli o ganlyniad i’r ymchwil honno ac, i lawer o guraduron, maent nid yn unig yn cyfrannu at gyhoeddi ond yn cyfrannu at weithgareddau cyfathrebu arddangosfa, drwy gyflwyno’r straeon a’r gwrthrychau hynny. Felly mae’n weithgarwch ar lefel bur uchel. Mae’r curadur yn cyfrannu mwy at y broses, mae’n debyg, o ran y cofnod catalog, os mynnwch chi, lle na all neb ond y curadur wneud y cofnod catalog. Fodd bynnag, gall y dasg gorfforol o gofnodi data gael ei chyflawni gan aelod is o’r staff.

[48] **Mick Bates:** Gan barhau gyda pharagraff 12.12, yr ydych wedi crybwyll eich adolygiad o’r targedau ar gyfer lefelau dogfennu a churaduriaeth. Pa gynnydd yr ydych wedi’i wneud o ran eich adolygiad o’r targedau ar gyfer lefelau dogfennu a churaduriaeth?

Mr Houlihan: Mae’n ddrwg gennyf, pa baragraff?

[49] **Mick Bates:** Paragraff 12.12. Mae’n ddrwg gennyf, 2.12. Maddeuwch imi. Mae’n cyfeirio at eich adolygiad o’r targedau ar gyfer lefelau dogfennu a churaduriaeth. Pa gynnydd yr ydych wedi’i wneud o ran adolygu’r targedau hynny?

Mr Houlihan: Mae’r amgueddfa wedi

number of areas where it has been reviewing activities. We are currently doing quite a lot of review work, as you might imagine. The first area is obviously in relation to developing the vision, which is going to provide a broad context for the museum and its general direction. We are currently looking at issues of display and how we present our collections, particularly at Cathays Park and the Museum of Welsh Life, which will have implications for the numbers of objects on display. We are currently looking at storage, which will, we hope, have a big impact in making the collections more accessible to the public. As I think I have just indicated, we will also, at that point, revisit our documentation targets, which is really one of the report's recommendations. We have also reviewed, and again this is referred to in the document, our approach to conservation. However, by and large, we have been waiting for this report to come through to see the extent to which it corroborates some of the reviewing work that we have been doing so far. So we have to go away now and do a hot towel job on this and bring all these elements together so that we have a cohesive, yet flexible approach to taking a lot of these issues forward, and try to find some of those smart solutions that I was talking about earlier, which hit a number of our targets.

[50] **Mick Bates:** So this review will impact on the resources that you require?

Mr Houlihan: I think that the review has assisted us in terms of looking at the way in which we use some of our existing resources, maybe in relation to documentation. We already have £3.5 million coming on-stream from the Assembly Government in relation to our storage needs and, clearly, we have to use those resources for the dedicated purpose. However, this study will assist us in addressing those sorts of issues and how that expenditure is made. It has also become a catalyst for ensuring that we achieve some linkages and that we do not just see documentation and conservation sitting in their own compartments and storage but that they are actually part of the same picture.

[51] **Mick Bates:** So, will those lead to a

adolygu ei gweithgareddau mewn nifer o feysydd. Ar hyn o bryd yr ydym yn gwneud llawer o waith adolygu, fel y gallwch ddyfalu. Yn amlwg, y maes cyntaf yw datblygu'r weledigaeth, a fydd yn darparu cyd-destun eang ar gyfer yr amgueddfa a'i chyfeiriad cyffredinol. Yr ydym wrthi'n edrych ar faterion yn ymwneud ag arddangos a sut yr ydym yn cyflwyno ein casgliadau, yn arbennig ym Mharc Cathays ac Amgueddfa Werin Cymru, a fydd â goblygiadau ar gyfer nifer y gwrthrychau sy'n cael eu harddangos. Ar hyn o bryd yr ydym yn ystyried storio, a fydd, gobeithio, yn cael effaith sylweddol o ran sicrhau bod y casgliadau yn fwy hygyrch i'r cyhoedd. Fel y soniais eisoes, fe gredaf, byddwn hefyd, bryd hynny, yn rhoi sylw eto i'n targedau dogfennu, sef un o argymhellion yr adroddiad mewn gwirionedd. Yr ydym hefyd wedi adolygu ein hagwedd at gadwraeth, ac eto cyfeirir at hyn yn y ddogfen. Fodd bynnag, ar y cyfan, yr ydym wedi bod yn disgwyl i'r adroddiad hwn gael ei gyflwyno i weld i ba raddau y mae'n cadarnhau rhywfaint o'r gwaith adolygu yr ydym wedi bod yn ei wneud hyd yma. Felly mae'n rhaid i ni fynd ati yn awr i dorchi llewys a dod â'r holl elfennau hyn at ei gilydd er mwyn i ni allu rhoi dull cydlynol, ond hyblyg, ar waith i ddatblygu llawer o'r materion hyn, a cheisio dod o hyd i rai o'r atebion treiddgar hynny yr oeddwn yn eu trafod yn gynharach, sy'n bodloni llawer o'n targedau.

[50] **Mick Bates:** Felly bydd yr adolygiad hwn yn effeithio ar yr adnoddau y bydd arnoch eu hangen?

Mr Houlihan: Credaf fod yr adolygiad wedi'n cynorthwyo o ran edrych ar y modd yr ydym yn defnyddio rhywfaint o'n hadnoddau presennol, efallai mewn perthynas â dogfennu. Yr ydym yn disgwyl £3.5 miliwn eisoes gan Lywodraeth y Cynulliad ar gyfer ein hanghenion storio ac, yn amlwg, mae'n rhaid i ni ddefnyddio'r adnoddau hynny i'r diben penodol hwnnw. Fodd bynnag, bydd yr astudiaeth hon yn ein cynorthwyo i roi sylw i faterion fel hyn a sut y caiff yr arian hwnnw ei wario. Mae hefyd yn sbardun i sicrhau ein bod yn cysylltu rhai pethau â'i gilydd ac nad ydym yn gweld dogfennu a chadwraeth fel dau beth sydd wedi'u cyfyngu i'w hadrannau a'u storfeydd eu hunain ond eu bod yn rhan o'r un darlun mewn gwirionedd.

[51] **Mick Bates:** Felly, a fydd hynny'n

consistent approach to your museum-wide strategy?

Mr Houlihan: Absolutely.

[52] **Alun Cairns:** May I draw your attention to paragraph 2.13, which highlights the auditing and verification process, and your policy in relation to it? It highlights systematic audit, spot-checking, and audit by use. It recognises that spot-checking and audit by use is conducted, yet there is no systematic verification. Can you tell us why?

Dr Wiliam: There is, in fact. Just to rehearse what we are saying, regarding audit by use, curators will constantly be using the collections, whether for their own research or to answer public enquiries. So, there is constant use. The computerisation process is spreading out by definition from those records and objects that are already computerised to those that are not computerised and, as you have already heard, we are tackling 200,000 of those per annum. So, a million were done in the past five years and we shall do another million in the next five years. That means then that, per annum, we are physically verifying 200,000 objects as part of that rolling process. So, we have physically verified over 1 million in the past five years and we will do another million. Although it seems totally tiddly by comparison, we also have a systematic procedure, but that, I am afraid, is only 600 objects a year. Against the totality of over 200,000 checked off and computerised every year, it is fairly meaningless. However, if you add all those together—and those processes are obviously subjected to audit by both the National Audit Office and also our internal auditor, who will do a small spot check per annum—I would guess that we would be physically verifying between a quarter of a million and 300,000 objects per annum.

[53] **Alun Cairns:** I draw your attention to the second bullet point on page 15 of the report. Does that mean that you dispute the conclusion that the Auditor General has come to in that bullet point?

Dr Wiliam: No, our spot-checking is done

arwain at ddull cyson yn eich strategaeth amgueddfa gyfan?

Mr Houlihan: Yn sicr.

[52] **Alun Cairns:** A gaf fi dynnu eich sylw at baragraff 2.13, sy'n amlygu'r broses archwilio a gwirio, a'ch polisi ynghylch hyn? Mae'n amlygu archwilio systematig, gwirio ar hap, ac archwilio yn ôl y defnydd. Mae'n cydnabod bod gwirio ar hap ac archwilio yn ôl y defnydd yn digwydd, ond eto nid oes gwirio systematig. A allwch ddweud pam?

Dr Wiliam: Mae hyn yn digwydd, mewn gwirionedd. Ac ailadrodd yr hyn yr ydym yn ei ddweud, o ran archwilio yn ôl y defnydd, bydd curaduron yn defnyddio'r casgliadau'n gyson, naill ai ar gyfer eu hymchwil eu hunain neu i ateb ymholiadau'r cyhoedd. Felly, maent yn cael eu defnyddio'n gyson. Mae'r broses gyfrifiaduro yn ymledu drwy ddiffiniad o'r cofnodion a'r gwrthrychau hynny sydd wedi'u cyfrifiaduro eisoes i'r rhai sydd heb eu gwneud ac, fel yr ydych wedi clywed eisoes, yr ydym yn mynd i'r afael â 200,000 o'r rheini bob blwyddyn. Felly, gwnaethpwyd miliwn yn y pum mlynedd diwethaf a byddwn yn gwneud miliwn arall yn y pum mlynedd nesaf. Mae hynny'n golygu, bob blwyddyn, ein bod yn gwirio 200,000 o wrthrychau'n gorfforol fel rhan o'r broses dreigl hon. Felly, yr ydym wedi gwirio dros filiwn yn gorfforol yn y pum mlynedd diwethaf a byddwn yn gwneud miliwn arall. Er bod hyn yn ymddangos yn bitw iawn mewn cymhariaeth, mae gennym hefyd weithdrefn systematig, ond dim ond 600 o wrthrychau, yn anffodus, yw hynny bob blwyddyn. O'i gymharu â'r cyfanswm o dros 200,000 sy'n cael eu gwirio a'u cyfrifiaduro bob blwyddyn, mae'n eithaf diystyr. Fodd bynnag, os ydych yn adio'r rheini i gyd at ei gilydd—ac mae'r prosesau hynny yn amlwg yn destun archwiliad gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol a'n harchwilydd mewnol, sy'n gwneud archwiliad bychan ar hap bob blwyddyn—mae'n debyg y byddem yn gwirio rhwng chwarter miliwn a 300,000 o wrthrychau yn gorfforol bob blwyddyn.

[53] **Alun Cairns:** Yr wyf am dynnu eich sylw at yr ail bwynt bwled ar dudalen 15 yn yr adroddiad. A yw hynny'n golygu eich bod yn amau'r casgliad sydd gan yr Archwilydd Cyffredinol yn y pwynt bwled hwnnw?

Dr Wiliam: Nac ydyw, mae ein gwirio ar

essentially on those records that we have computerised. It is a value-for-money point, I think.

[54] **Alun Cairns:** Sorry to cut across you, Dr Wiliam, but I am referring to the systematic verification arrangements that are included in that bullet point.

Dr Wiliam: I think that we would agree that we could do more. Where I think that this report has been helpful is that I can see quite clearly that we can fairly readily do those for our science collections, which are stored in their systematic fashion, that is, the Latin names given by Carl Linnaeus in the seventeenth century and Charles Darwin in the nineteenth century. So, a scientific curator, for example, will know exactly where type x of a shell will go because it can only fit into that sequence. So, I can see that we could quite readily—and, clearly, according to this report we should—extend our spot-checking into those areas. However, that will be in addition to the at least 250,000 physical verification exercises that we do per annum.

[55] **Alun Cairns:** Okay. So, given that your spot-checking—because that is what you have specifically highlighted in your response—is mainly chosen from the electronic system, do you feel that those that are held on manual records are therefore at risk, bearing in mind that they represent a large proportion of your collection?

Dr Wiliam: By definition, yes, but what I would say is that when we started the process of computerising our records and our objects, we started by computerising all those on display. We then moved to all those on loan and then identified those that do not fit into either of those categories and which were of greatest monetary and financial worth, so we are working our way down. By definition, therefore, all the most valuable objects in our collections, however defined, will already be on the computerised records. Therefore, we are concentrating our spot-checking in that area, but the 200,000 new records that we create each year will be rolling out into the otherwise uncomputerised records.

hap yn cael ei wneud yn y bôn ar y cofnodion hynny sydd wedi'u cyfrifiadurol gennym. Y mae'n ymwneud â gwerth am arian, yn fy marn i.

[54] **Alun Cairns:** Mae'n ddrwg gennyf dorri ar eich traws, Dr Wiliam, ond cyfeirio yr wyf at y trefniadau gwirio systematig sydd wedi'u cynnwys yn y pwynt bwled hwnnw.

Dr Wiliam: Credaf y byddem yn cytuno y gallem wneud rhagor. Credaf fod yr adroddiad hwn wedi bod yn ddefnyddiol am fy mod yn gallu gweld yn eithaf clir y gallwn wneud y rheini'n gymharol rwydd ar gyfer ein casgliadau gwyddoniaeth, sy'n cael eu storio yn y dull systematig, hynny yw, yr enwau Lladin a roddwyd gan Carl Linnaeus yn yr ail ganrif ar bymtheg a Charles Darwin yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Felly, bydd curadur gwyddonol, er enghraifft, yn gwybod yn union i ble y bydd cragen math x yn mynd oherwydd mai dim ond i'r dilyniant hwnnw y bydd yn ffitio. Felly, gallaf weld y gallem yn hawdd—ac y dylem, yn amlwg, yn ôl yr adroddiad hwn—ehangu ein gwirio ar hap i'r meysydd hynny. Fodd bynnag, bydd hynny'n ychwanegol at y 250,000 o wiriadau corfforol o leiaf yr ydym yn eu gwneud bob blwyddyn.

[55] **Alun Cairns:** Iawn. Felly, o ystyried bod eich gwirio ar hap—oherwydd dyna beth yr ydych wedi tynnu sylw yn benodol ato yn eich ymateb—yn cael ei ddewis yn bennaf o'r system electronig, a ydych yn credu bod y rhai a gedwir ar gofnodion llaw mewn perygl felly, o gofio eu bod yn gyfran fawr o'ch casgliad?

Dr Wiliam: Drwy ddiffiniad, ydynt, ond yr hyn y byddwn yn ei ddweud yw pan ddechreuwyd y broses o gyfrifiadurol ein cofnodion a'n gwrthrychau, dechreuwyd drwy gyfrifiadurol pob un o'r rhai a oedd yn cael eu harddangos. Wedi hynny aethom ymlaen at y rhai sydd ar fenthyg ac yna penderfynu pa rai sydd heb fod yn ffitio i'r un o'r categorïau hynny ac a oedd o'r gwerth ariannol mwyaf, felly yr ydym yn gweithio'n ffordd i lawr. Drwy ddiffiniad, felly, bydd pob un o'r gwrthrychau mwyaf gwerthfawr yn ein casgliadau, sut bynnag y'u diffinnir, ar y cofnodion cyfrifiadurol eisoes. Felly, yr ydym yn canolbwyntio ar wirio ar hap yn y maes hwnnw, ond bydd y 200,000 o gofnodion newydd yr ydym yn eu creu bob blwyddyn yn cael eu hychwanegu fesul cam

i'r cofnodion nad ydynt wedi'u cyfrifiaduro fel arall.

[56] **Alun Cairns:** Bearing in mind that it will take 10 years to complete that process, do you think that it is acceptable that the spot-checking will not reach some of the artefacts for 10 years' time?

Dr Wiliam: We are back, are we not, to the wider debate about where do resources go. Yes, we could spot-check every item every year, and our curators would do nothing else. In effect, we would not be offering access to the public, we would not be creating new exhibitions and we would not be offering loans. It is a balance.

Mr Houlihan: If I could just add to that, I think that we have to be honest about this and say that systematic verification of the entire collection—which is the bullet point—is not a priority for the organisation. However, systematic verification of those objects of high value is a priority for the organisation.

[57] **Alun Cairns:** Finally, as a result of the Auditor General's comments in the report, what plans do you have to change your procedures or priorities in relation, specifically, to verification?

Mr Houlihan: I think that we will be following some of the points that Eurwyn made, particularly in relation to the scientific collections, to see how we could get more systematic verification into those sorts of areas. We accept that there is a need to review that area, and I think that it is inevitable anyway that, as we do more storage work, and as more documentation rolls through, more of the collections will be verified or stock-checked. I think that the more of the collection that we can get into public use, as it were, through access and so on, the more areas we would automatically verify as part of our normal security and public access procedures.

[58] **Janet Davies:** Tamsin, I do not know whether any of the questions that you wanted to ask have been covered?

[56] **Alun Cairns:** O gofio y bydd yn cymryd 10 mlynedd i gwblhau'r broses honno, a ydych yn credu ei bod yn dderbyniol na fydd y gwirio ar hap yn cyrraedd rhai o'r arteffactau am 10 mlynedd arall?

Dr Wiliam: Yr ydym wedi dod yn ôl, onid ydym, at y ddadl ehangach ynglŷn ag i ble y mae'r adnoddau'n mynd. Gallem wirio pob eitem ar hap bob blwyddyn, gallem, ac ni fyddai'n curaduron yn gwneud dim arall. I bob diben, ni fyddem yn cynnig mynediad i'r cyhoedd, ni fyddem yn creu arddangosfeydd newydd, ac ni fyddem yn cynnig benthyciadau. Mae'n ymwneud â chydwbysedd.

Mr Houlihan: Os caf ychwanegu at hynny, credaf fod yn rhaid i ni fod yn onest am hyn a dweud nad yw gwirio'r holl gasgliad yn systematig—sef y pwynt bwled—yn flaenoriaeth ar gyfer y sefydliad. Fodd bynnag, mae gwirio'r gwrthrychau hynny sydd o werth mawr yn systematig yn flaenoriaeth i'r sefydliad.

[57] **Alun Cairns:** I gloi, o ganlyniad i sylwadau'r Archwilydd Cyffredinol yn yr adroddiad, pa gynlluniau sydd gennych i newid eich gweithdrefnau neu eich blaenoriaethau ynghylch gwirio, yn benodol?

Mr Houlihan: Credaf y byddwn yn dilyn rhai o'r pwyntiau a wnaeth Eurwyn, yn arbennig ynghylch y casgliadau gwyddonol, i weld sut y gallem gael rhagor o wiriadau systematig i'r mathau hynny o feysydd. Yr ydym yn derbyn bod angen adolygu'r maes hwnnw, a chredaf ei bod yn anochel beth bynnag y bydd rhagor o'r casgliadau, wrth i ni wneud mwy o waith storio, ac wrth i ragor o'r dogfennau gael eu gwneud, yn cael eu gwirio neu'n cael archwiliad stoc. Yn fy marn i, po fwyaf o'r casgliad y gellir ei ddefnyddio gan y cyhoedd, fel petai, drwy fynediad ac yn y blaen, po fwyaf o feysydd a fyddai'n cael eu gwirio'n awtomatig fel rhan o'n gweithdrefnau arferol o ran diogelwch a mynediad i'r cyhoedd.

[58] **Janet Davies:** Tamsin, nid wyf yn gwybod a oes unrhyw rai o'r cwestiynau yr oeddech am eu gofyn wedi'u trafod?

[59] **Tamsin Dunwoody-Kneafsey:** We have heard that storage has been improved over the years and that some £8 million has been spent on upgrading and increasing storage facilities across your sites. However, instances have been highlighted where physical panes of glass have to be removed to even access items, which implies that there are key areas that still need a lot of work. Could you explain the source of income for the £8 million—where did this come from? In terms of your budgets, do you think that, over the years, you should have perhaps invested more in storage and conservation?

Mr Houlihan: I would return to my opening remark and say that, in common with other museums, the National Museums and Galleries of Wales has been playing catch up in this area over the past 15 years or so, which probably spans the period covered by the reports that have been coming out. Efforts have been made, but I think that we would recognise that more is required in the whole storage area, which is why we have been pressing the Assembly Government and why it has agreed to provide us with the £3.5 million to enable us to address storage issues across the organisation. We feel that, in terms of the plans that we are developing, both for development at our Nantgarw facility and for some improvements at other locations that are more publicly accessible, we can achieve that target of 90 per cent good storage by 2006-07. So, that is where we are going. Our initial estimates of the money that we will need to spend in this sort of period is probably just in excess of £5 million. So, there is a shortfall, and we will have to go out and find additional sums for that. But, again, this comes back to some of these types of solutions. If we were to open up, say, our furniture collection to public access, there are potential funders out there that might assist us with doing something like that. Storage is a particularly unsexy area in terms of sponsors, particularly at a time when, UK-wide, even capital projects are having trouble getting cash into them—such as public museum redevelopments, even in London and so on—so it is quite a difficult area, there is no doubt about that. However, I think that we can put together a package that might interest people.

[60] **Tamsin Dunwoody-Kneafsey:** Can I have some clarification on the £8 million?

Dr Wiliam: I have in my hand a piece of paper relating to that. Much of it came from the museum's capital budget over that time—

[59] **Tamsin Dunwoody-Kneafsey:** Yr ydym wedi clywed bod storio wedi'i wella dros y blynyddoedd a bod oddeutu £8 miliwn wedi'i wario ar uwchraddio a chynyddu cyfleusterau storio drwy eich safleoedd. Fodd bynnag, tynnwyd sylw at achosion lle y bu'n rhaid tynnu paenau o wydr er mwyn cael mynediad at eitemau hyd yn oed, sy'n awgrymu bod angen gwneud llawer o waith mewn rhai meysydd allweddol o hyd. A allech esbonio beth yw ffynhonnell yr incwm ar gyfer yr £8 miliwn—o ble y daeth? O ran eich cyllidebau, a ydych yn credu y dylech fod wedi buddsoddi mwy mewn storio a chadwraeth dros y blynyddoedd o bosibl?

Mr Houlihan: Yr wyf am fynd yn ôl at fy sylw cyntaf a dweud, yn yr un modd ag amgueddfeydd eraill, fod Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru wedi bod yn ceisio dal i fyny yn y maes hwn yn ystod y 15 mlynedd diwethaf, sef y cyfnod sy'n cael ei gynnwys yn yr adroddiadau yn ôl pob tebyg. Mae ymdrechion wedi'u gwneud, ond credaf y byddem yn cydnabod bod angen gwneud mwy yn y maes storio, a dyna pam yr ydym wedi bod yn rhoi pwysau ar Lywodraeth y Cynulliad a pham y mae wedi cytuno i roi £3.5 miliwn i ni i'n galluogi i fynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â storio drwy'r sefydliad. Credwn, o ran y cynlluniau yr ydym yn eu datblygu, ar gyfer y datblygiad yn ein canolfan yn Nantgarw ac ar gyfer rhai gwelliannau mewn lleoliadau eraill sy'n fwy hygyrch i'r cyhoedd, y gallwn gyflawni'r targed hwnnw o 90 y cant o storio da erbyn 2006-07. Felly, dyna'r llwybr yr ydym yn ei ddilyn. Ychydig dros £5 miliwn yw'n hamecangyfrif cyntaf o'r arian y bydd angen i ni ei wario yn y cyfnod hwn, yn ôl pob tebyg. Felly mae diffyg, a bydd yn rhaid i ni fynd ati i ddod o hyd i arian ychwanegol ar gyfer hynny. Ond, eto, mae hyn yn dod yn ôl at rai o'r mathau hyn o atebion. Pe baem yn agor, er enghraifft, ein casgliad dodrefn i'r cyhoedd, mae cyllidwyr posibl ar gael a allai ein cynorthwyo i wneud rhywbeth felly. Mae storio yn faes hynod o anffasiynol o ran noddwyr, yn arbennig ar adeg pan fo hyd yn oed prosiectau cyfalaf, ledled y DU, yn ei chael yn anodd denu arian—megis prosiectau ailddatblygu amgueddfeydd cyhoeddus, hyd yn oed yn Llundain ac ati—felly mae'n faes eithaf anodd, nid oes amheuaeth am hynny. Fodd bynnag, credaf y gallwn roi pecyn gyda'i gilydd a allai fod o ddiddordeb i bobl.

[60] **Tamsin Dunwoody-Kneafsey:** A gaf eglurhad am yr £8 miliwn?

Dr Wiliam: Mae gennyf ddarn o bapur yn fy llaw sy'n ymwneud â hynny. Daeth llawer ohono o gyllideb gyfalaf yr amgueddfa yn

in fact, all of it did really. Some of it was piggy-backing on the major capital development of the centre court in the national museum and gallery, which, when it happened in the early 1990s, was the largest museum redevelopment in the UK in monetary terms up to that point. It also includes the £2.25 million that we spent on acquiring our collection centre at Nantgarw, so there are major chunks in there. It is at the national museum and gallery, at the Museum of Welsh Life, and at several of our smaller sites as well.

[61] **Mick Bates:** Turning to pages 18 and 19, the Auditor General lists quite a few case studies. I must admit that, when I read through those, I was quite shocked, especially where it appears that staff have been put at risk. To what extent would you agree that this is not just an issue of collection management, but also of health and safety, because staff are being endangered by these conditions?

Dr Wiliam: I guess our response to this report would be that it is immensely helpful, particularly on storage. I hope that the officers of the National Audit Office are content that we have tried to give them access and not hidden anything because obviously, let us be honest, we wanted to use this report. We think that it has been exceedingly helpful. So, these were all issues that we were extremely concerned with and extremely aware of, and I agree, in some cases, with the point that you are making, which is why we are so delighted that the Assembly has been able to earmark £3.5 million for us. These are major items for us and we are absolutely delighted that it seems that we can really do something meaningful about the situation over the next couple of years.

[62] **Mick Bates:** That is fine, but example H states that one storage building was in such a bad condition, following water ingress, that a member of staff fell through the floor. It is all very well to say that you now have £3.5 million to do things, but I would just like to know what records and data are kept, and what actions were taken to address health and safety issues given that you have already admitted that you knew that storage conditions were bad for your staff?

ystod y cyfnod hwnnw—yn wir, y cyfan mewn gwirionedd. Yr oedd rhywfaint ohono yn gysylltiedig â'r datblygiad cyfalaf sylweddol yn y cwrt canol yn yr amgueddfa a'r oriel genedlaethol, y prosiect ailddatblygu mwyaf mewn amgueddfa yn y DU mewn termau ariannol hyd hynny pan ddigwyddodd yn gynnar yn y 1990au. Mae hefyd yn cynnwys y £2.25 miliwn a wariwyd gennym ar gaffael ein canolfan gasgliadau yn Nantgarw, felly dyna symiau sylweddol. Mae yn yr amgueddfa a'r oriel genedlaethol, yn Amgueddfa Werin Cymru, ac mewn llawer o'n safleoedd llai hefyd.

[61] **Mick Bates:** A throi at dudalennau 18 ac 19, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn rhestru amryw o astudiaethau achos. Mae'n rhaid i mi gyfaddef, pan ddarllenais drwy'r rheini, imi gael fy syfrdanu, yn arbennig lle y mae'n ymddangos bod y staff wedi'u rhoi mewn perygl. I ba raddau y byddech yn cytuno nad mater o reoli'r casgliad yn unig yw hyn, ond mater o iechyd a diogelwch hefyd, oherwydd bod yr amodau hyn yn peryglu'r staff?

Dr Wiliam: Mae'n debyg mai ein hymateb i'r adroddiad hwn yw ei fod yn hynod o ddefnyddiol, yn arbennig o ran storio. Gobeithio bod swyddogion y Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn fodlon ein bod wedi ceisio rhoi mynediad iddynt a heb guddio dim oherwydd yn amlwg, gadewch i ni fod yn onest, yr oeddem am ddefnyddio'r adroddiad hwn. Credwn ei fod wedi bod yn ddefnyddiol dros ben. Felly, yr oedd y rhain i gyd yn faterion yr oeddem yn bryderus iawn yn eu cylch ac yn ymwybodol iawn ohonynt, ac yr wyf yn cytuno, mewn rhai achosion, â'r pwynt yr ydych yn ei wneud, a dyna pam yr ydym mor falch bod y Cynulliad wedi gallu clustnodi £3.5 miliwn i ni. Mae'r rhain yn eitemau pwysig i ni ac yr ydym yn falch iawn ei bod yn ymddangos ein bod yn gallu gwneud rhywbeth o bwys am y sefyllfa yn ystod y flwyddyn neu ddwy nesaf.

[62] **Mick Bates:** Mae hynny'n iawn, ond mae enghraifft H yn nodi bod un adeilad storio mewn cyflwr mor wael, am ei fod yn gollwng dŵr, fel bod aelod o'r staff wedi disgyn drwy'r llawr. Mae'n braf gallu dweud bod gennych £3.5 miliwn yn awr i wneud pethau, ond hoffwn wybod pa gofnodion a data a gedwir, a pha gamau a gymerwyd i fynd i'r afael â materion iechyd a diogelwch o ystyried eich bod wedi cyfaddef yn barod eich bod yn gwybod bod yr amodau storio yn

wael ar gyfer eich staff?

Dr Wiliam: That particular example, I think, is sub judice, literally. However, more generally, we do take a risk-based approach to everything following the publication of the Turnbull report a few years ago. We have a very systematic and, I hope, rigorous process of flagging up issues such as this. I can only assure you that we are now acutely aware of these issues. The safety and wellbeing of staff, obviously, has primacy and so we take these issues most seriously.

[63] **Mick Bates:** I am pleased to hear that, but does that mean then that you have good data so that you collect it and revisit health and safety standards in terms of staff accidents on a continual basis?

Mr Houlihan: Yes, we do have formal health and safety committee procedures and accident reporting books, and all that data is retained and kept. We fully comply with normal procedures under the Health and Safety at Work etc Act 1974. Underlying your question is an issue of estate management and such like. I think, certainly since these incidents happened, that we now have a much more rigorous and centralised approach to buildings maintenance and the whole operational area that that involves. However, we cannot deny that there are issues, as I indicated earlier, of investment in the estate that need to be addressed. We would estimate currently that there is something like £1.6 million worth—it is strange how this figure of 1.6 keeps cropping up—of buildings maintenance that we need to carry out over the next 10 or more years; I think that it is actually through to 2016. We would be looking at spending something in the order of £8 million on works in relation to improving the general standard and maintenance of our buildings. I think that, certainly in terms of our organisational priorities for the coming years, we have done a lot of capital development across Wales—at Llanberis, Swansea, Drefach, Big Pit, and so on. However, in some sense there has been a price to pay for that in that the maintenance and standards at St Fagans and Cathays are perhaps not as high as they should be. It comes down to leaking roofs and things like that. Perhaps it is not always as dramatic as this, but there are irritants that affect the

Dr Wiliam: Credaf fod yr enghraifft benodol honno yn nwylo'r gyfraith, yn llythrennol. Fodd bynnag, yn fwy cyffredinol, mae gennym ymagwedd sy'n seiliedig ar risg o ran popeth wedi cyhoeddi adroddiad Turnbull ychydig flynyddoedd yn ôl. Mae gennym broses systematig a chadarn iawn, gobeithio, o dynnu sylw at faterion fel hyn. Gallaf eich sicrhau ein bod bellach yn gwbl ymwybodol o'r materion hyn. Mae diogelwch a lles y staff, yn amlwg, yn hollbwysig ac felly yr ydym o ddifrif go iawn ynghylch y materion hyn.

[63] **Mick Bates:** Yr wyf yn falch o glywed hynny, ond a yw hynny'n golygu bod gennych ddata da er mwyn i chi allu ei gasglu a rhoi sylw eto i safonau iechyd a diogelwch o ran damweiniau'r staff yn barhaus?

Mr Houlihan: Oes, mae gennym weithdrefnau ffurfiol ar gyfer y pwyllgor iechyd a diogelwch a llyfrau cofnodi damweiniau, a chedwir yr holl ddata hwnnw. Yr ydym yn cydymffurfio'n llwyr â'r gweithdrefnau arferol dan Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith ac ati 1974. Yr hyn sydd wrth wraidd eich cwestiwn yw rheoli'r ystâd a phethau felly. Credaf, yn sicr ers i'r damweiniau hyn ddigwydd, fod gennym ddull llawer mwy cadarn a chanolog o ymdrin â chynnal a chadw adeiladau a'r holl faes gweithredol sy'n ymwneud â hynny. Fodd bynnag, ni allwn wadu nad oes rhai cwestiynau'n ymwneud â buddsoddi yn yr ystâd y mae angen rhoi sylw iddynt, fel y soniais yn gynharach. Byddem yn amcangyfrif ar hyn o bryd fod gwerth tuag £1.6 miliwn—mae'n rhyfedd sut y mae'r ffigur o 1.6 yn codi ei ben drwy'r amser—o waith cynnal a chadw adeiladau y mae angen i ni ei gyflawni yn ystod y 10 mlynedd neu fwy nesaf; credaf fod hyn mewn gwirionedd yn ymestyn hyd at 2016. Byddem yn disgwyl gwario tuag £8 miliwn ar waith i wella safon gyffredinol ein hadeiladau a'u cynnal a'u cadw. Credaf, yn sicr o ran blaenoriaethau ein sefydliad ar gyfer y blynyddoedd nesaf, ein bod wedi gwneud llawer o waith datblygu cyfalaf ledled Cymru—yn Llanberis, Abertawe, Dre-fach, y Pwll Mawr, ac yn y blaen. Fodd bynnag, i ryw raddau mae pris i'w dalu am hynny oherwydd efallai nad yw gwaith cynnal a chadw a safonau Sain Ffagan a Cathays mor uchel ag y dylent fod. Yn y bôn mae'n ymwneud â thoeau yn gollwng a

environment in which the collections are held. So there are a number of issues in there.

phethau felly. Efallai nad yw mor ddramatig â hyn bob tro, ond mae amgylchiadau anffafrïol i'w cael sy'n effeithio ar yr amgylchedd lle y cedwir y casgliadau. Felly mae llawer o faterion sy'n gysylltiedig â hyn.

[64] **Mick Bates:** Thank you for that answer. You are admitting more or less then that a site such as St Fagans has been neglected?

[64] **Mick Bates:** Diolch am eich ateb. Yr ydych yn cyfaddef fwy neu lai felly fod safle fel Sain Ffagan wedi'i esgeuluso?

Mr Houlihan: I am not saying that it has been neglected. I think that there are a number of issues in relation to St Fagans. On where we are now, anyone who visits St Fagans will see that we need to replace the signage and that the numbers of people piling through there are causing wear and tear to the site. It is not just a question of free admission—it was happening before that was introduced. We have done a small amount of restructuring within our organisation so that some of the operational aspects, both at St Fagans and at Cathays, are now handled more centrally so that operations are dealt with on a central basis. It is not just a question of the storage of collections at somewhere like St Fagans, but the storage of materials—all the building materials that we use, and so on. Those areas need to be smartened up, and so on, and we need to get in place the sort of systems, procedures and culture that are necessary in order to ensure that, ultimately, the visitor experience is working and that we are operating a safe, clean environment.

Mr Houlihan: Nid wyf yn dweud ei fod wedi'i esgeuluso. Credaf fod nifer o faterion yn gysylltiedig â Sain Ffagan. O ran ein sefyllfa ar hyn o bryd, bydd unrhyw un sy'n ymweld â Sain Ffagan yn gweld bod angen inni osod arwyddion newydd a bod yr holl bobl sy'n tyrru yno yn peri i'r safle dreulio a gwisgo. Mae'n fwy na mater o fynediad am ddim yn unig—yr oedd yn digwydd cyn cyflwyno hynny. Yr ydym wedi gwneud ychydig o waith ailstrwythuro o fewn ein sefydliad er mwyn delio â rhai o'r agweddau gweithredol, yn Sain Ffagan a Cathays, yn fwy canolog bellach fel bod gweithredoedd yn cael eu trafod yn ganolog. Nid yw'n ymwneud yn unig â storio casgliadau yn rhywle fel Sain Ffagan, ond storio deunyddiau—yr holl ddeunyddiau adeiladu a ddefnyddir gennym, ac yn y blaen. Mae angen cael trefn ar y meysydd hynny, ac yn y blaen, ac mae angen i ni roi'r math o systemau, gweithdrefnau a diwylliant sydd eu hangen ar waith er mwyn sicrhau, yn y pen draw, fod profiad yr ymwelwyr yn gweithio a'n bod yn gweithredu amgylchedd diogel, glân.

[65] **Mick Bates:** Thank you very much. Finally, I would like to hear your reassurance that health and safety matters are really under control.

[65] **Mick Bates:** Diolch yn fawr. I gloi, hoffwn eich clywed yn rhoi sicrwydd bod y materion sydd a wnelont ag iechyd a diogelwch dan reolaeth mewn gwirionedd.

Mr Houlihan: As the key officer responsible for health and safety within the museum, I believe that we now have in place the systems that are necessary to ensure that risk is being assessed and minimised, that action is being taken, that there are suitable responses, and that staff are being made aware that we all have a responsibility for health and safety, so that all of the normal procedures that operate in any other organisation are in place.

Mr Houlihan: Fel y swyddog allweddol sy'n gyfrifol am iechyd a diogelwch yn yr amgueddfa, credaf fod y systemau sydd eu hangen ar waith gennym yn awr i sicrhau bod cyn lleied o risg â phosibl a bod y risg yn cael ei hasesu, fod camau'n cael eu cymryd, fod ymatebion addas, a bod y staff yn ymwybodol bod gennym i gyd gyfrifoldeb am iechyd a diogelwch, fel bod yr holl weithdrefnau arferol a weithredir mewn unrhyw sefydliad arall ar waith.

[66] **Janet Davies:** Before we go on, Dr Wiliam I will just pick up on one point that you made about having given full access and not hiding anything from the National Audit

[66] **Janet Davies:** Cyn i ni fynd ymlaen, Dr Wiliam yr wyf am drafod un pwynt a wnaethoch am roi mynediad llawn a pheidio â chuddio dim rhag archwiliad y Swyddfa

Office inspection. I am sure that you would wish to say that you recognise that the National Audit Office still has the legal right of access and that there is no way that you would ever consider hiding anything.

Dr Wiliam: No, absolutely not.

[67] **Janet Davies:** Right.

[68] **Jocelyn Davies:** You would not get away with it if you tried.

[69] **Janet Davies:** I just want to have that clear.

Dr Wiliam: I think, Chair, that I was trying to make the point that it was in our interest to actively, even proactively, co-operate, and not just be passive and supine.

[70] **Janet Davies:** Right, thank you. I just think that we do need to have that on record.

David, you may have other questions.

[71] **David Melding:** Yes, I think that this batch is still pertinent. We will cover the other material that I was keen to pursue later on.

You hope to solve the storage problems for the next 15 or 20 years. By the time we get to the end of that period, will we be in the sorry situation that we are in today with 40-odd per cent of storage being poor, or is it all in the plan and your thinking that, as the collection grows and inevitably standards change, and so on, you will be able to cope better with that than we have, say, in the previous 20 years, building up to our situation today?

Mr Houlihan: I would certainly like to think so. In museums generally, and partly this is a general museum answer, I suppose, standards of storage and care of collections are improving rather than declining. I think that there probably was a period—and not only do museums take a long-term future view, we tend to take a long back view as well—almost from about the 1920s right through to the 1960s, when you could very seriously argue that collection care and management was in decline. I would certainly like to think

Archwilio Genedlaethol. Yr wyf yn sicr y byddech am ddweud eich bod yn cydnabod bod gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol yr hawl gyfreithiol o hyd i gael mynediad ac na fyddech byth bythoedd yn ystyried cuddio dim.

Dr Wiliam: Na, yn sicr.

[67] **Janet Davies:** Iawn.

[68] **Jocelyn Davies:** Ni fyddech yn gallu gwneud hynny pe baech yn rhoi cynnig arni.

[69] **Janet Davies:** Yr wyf am wneud hynny'n glir.

Dr Wiliam: Credaf, Gadeirydd, fy mod yn ceisio gwneud y pwynt ei bod er ein budd ni inni gydweithredu yn frwd, hyd yn oed yn rhagweithiol, yn hytrach na bod yn oddefgar ac yn ddiymadferth.

[70] **Janet Davies:** Iawn, diolch. Credaf fod angen i ni gael hynny ar gofnod.

David, efallai fod gennych gwestiynau eraill.

within society. We know that to a certain extent: we know that we are not representing some of them, and there are certain groups that we are not reaching as well. So, we need to establish the reasons for that. The burden of Beaufort Research Ltd—the company that handles it—will be getting that profile right. Then, next year, in 2005-06, we will do quite serious testing of the advantages, disadvantages and public views on whether we should keep the museums open for longer hours and so on, and then respond to that in terms of trialling, for example, keeping the museum open. If you visit Cathays this Saturday, it will be open until 7 p.m. as part of the Wales and the world festival.

[86] **Denise Idris Jones:** I will be in Conwy then, so I will not be able to do that.

Mr Houlihan: There are also environmental issues, external to the museum, which are quite important. I think that Dublin is a classic example of a city that is bustling with tourists and is very active. The location of the national gallery and the national museum there is quite central—people are constantly going past and so on. Similarly south Kensington. Although, interestingly, at the British Museum, the great court was designed to be open until 10 p.m. for people to pass through, but they have closed it now, because people were not using it, and that is in relatively central London. So that is the sort of environment that you also have to take account of before taking a decision: if we looked at opening all our sites until late evening on Mondays, it would cost us about £0.5 million.

[87] **Val Lloyd:** I will continue with Denise's theme of access. For the last three years, free entry to museum sites has brought a very welcome increase in visitor numbers, and earlier you referred in passing, while answering another question, to the wear and tear that that brought with it. In addition to that, perhaps you have other problems with collections that are on open display, such as those at St Fagans. How do you minimise the potential damage?

yn eithaf posibl, yw nad ydym yn cynrychioli neu'n cyrraedd grwpiau penodol yn y gymdeithas. Gwyddom hynny i ryw raddau: gwyddom nad ydym yn cynrychioli rhai ohonynt, a bod grwpiau penodol nad ydym yn eu cyrraedd cystal ag eraill. Felly, mae angen i ni ganfod y rhesymau dros hynny. Cyfrifoldeb Beaufort Research Cyf—y cwmni sy'n delio â'r gwaith—fydd cael y proffil hynny yn gywir. Yna, y flwyddyn nesaf, yn 2005-06, byddwn yn mynd ati o ddifrif i gynnal profion o'r manteision, anfanteision a barn y cyhoedd ar a ddylem gadw'r amgueddfeydd ar agor yn hwyrach ac yn y blaen, ac yna ymateb i hynny o ran cynnal cynlluniau prawf, er enghraifft, ar gadw'r amgueddfa ar agor. Os ewch i Cathays y dydd Sadwrn hwn, bydd ar agor tan 7 p.m. fel rhan o ŵyl Cymru a'r byd.

[86] **Denise Idris Jones:** Byddaf yng Nghonwy bryd hynny, felly ni fedraf wneud hynny.

Mr Houlihan: Mae hefyd faterion amgylcheddol, y tu allan i'r amgueddfa, sy'n eithaf pwysig. Credaf fod Dilyn yn enghraifft berffaith o ddinas sy'n byrlymu â thwristiaid ac sy'n fywiog iawn. Mae'r oriel genedlaethol a'r amgueddfa genedlaethol mewn lleoliad eithaf canolog yno—mae pobl yn mynd heibio ac ati drwy'r amser. Mae'r un peth yn wir am dde Kensington. Er, yn ddi-ddorol, yn yr Amgueddfa Brydeinig, bwriadwyd i'r cwrt mawr fod ar agor tan 10 p.m. er mwyn i bobl allu cerdded drwyddo, ond maent bellach wedi ei gau, oherwydd nad oedd pobl yn ei ddefnyddio, ac mae hwnnw'n gymharol ganolog yn Llundain. Felly dyna'r math o amgylchedd y mae'n rhaid i chi ei ystyried cyn gwneud penderfyniad: pe baem yn ystyried agor ein holl safleoedd tan yn hwyr ar ddyddiau Llun, byddai'n costio tua £0.5 miliwn i ni.

[87] **Val Lloyd:** Gwnaf barhau â thema mynediad Denise. Am y tair blynedd diwethaf, mae mynediad am ddim i safleoedd amgueddfeydd wedi cynyddu niferoedd ymwelwyr, sydd i'w groesawu'n fawr, ac yn gynharach, bu i chi grybwyll yn fyr, tra'n ateb cwestiwn arall, y traul yn sgîl hynny. Yn ogystal â hynny, efallai fod gennych broblemau eraill gyda chasgliadau sy'n cael eu harddangos yn agored, fel y rhai hynny yn Sain Ffagan. Sut yr ydych yn lleihau'r difrod posibl?

Mr Houlihan: I think that we are still, to some extent, in new territory on this one. Yes, you can physically see where, on previously lawned areas, the public have cut a new path; putting a path there is, I think, the solution to that. There are those physical manifestations. You raised a number of issues. It is not just the care of objects: it is also the security of the objects. I would have to be frank and say that there is an issue there. A number of staff based in the buildings have said that, in some senses, their job is moving from one of interpreting the house to being a security guard. They do not like it; it is a shift in their job, in a sense, created by the numbers of people coming through. It is a case of ‘do not touch that’, ‘do not do that’. That is an issue that we must grapple with as an organisation. In an ideal world, we would see that as an opportunity to intervene and say, ‘now, there is an interesting object, let me tell you about it’, but, because of the numbers of people piling through, there is an issue. We are looking at that; maybe, for example, looking at themed tours—John Williams-Davies, the director, is looking at the possibility of themed tours around some of the houses, which might provide the level of engagement that we are seeking, with groups of people.

However, it is early days and there are problems, there is no doubt about that. However, we do not want to go down the route of putting a roped barrier at the entrance to each of the houses and having people peer in. We have to find a solution to this. There are other examples of practice at Ironbridge and other open-air museums, and such like, where they get large numbers of people through, so maybe we just need to see what they do. I think that there are ways in which you can divert the public as well—dare I say—through costumed interpretation and those sorts of things. There is an opportunity to engage the visitor and stop them playing football or whatever and turn a visit into a learning exercise.

[88] **Val Lloyd:** How do you square the concept of free entry with the introduction of parking fees at a place like St Fagans, particularly when you have an avowed intention to attract a wider range of social groups?

Mr Houlihan: Credaf ein bod, i ryw raddau, ar dir newydd o hyd mewn perthynas â hyn. Gallwch, gallwch weld yn ffisegol, lle yr oedd porfa y flaenorol, ble mae'r cyhoedd wedi creu llwybr newydd; credaf mai rhoi llwybr yn y fan honno yw'r ateb i hynny. Mae'r arwyddion ffisegol hynny. Bu i chi godi nifer o faterion. Nid gofal y gwrthrychau yw'r unig fater: mae'n ymwneud â diogelwch y gwrthrychau hefyd. Byddai'n rhaid i mi ddweud yn ddi-flewyn ar dafod bod problem yn y fan honno. Mae nifer o staff sy'n gweithio yn yr adeiladau wedi dweud, ar ryw ystyr, bod eu swydd yn newid o fod yn un o ddehongli'r tŷ i fod yn swyddog diogelwch. Nid ydynt fodlon â hynny; mae'n newid yn eu gwaith, ar ryw ystyr, sy'n cael ei greu gan niferoedd y bobl sy'n dod drwodd. Mae'n achos o 'peidiwch â chyffwrdd â hwnnw', 'peidiwch â gwneud hynny'. Mae hwnnw'n fater y mae'n rhaid i ni fynd i'r afael ag ef fel sefydliad. Mewn byd delfrydol, byddem yn gweld hynny fel cyfle i ymyrryd a dweud, 'yn awr, dyna wrthrych diddorol, gadewch i mi ddweud wrthych amdano', ond, oherwydd niferoedd y bobl sy'n tyrru drwodd, mae problem. Yr ydym yn edrych ar hynny; efallai, er enghraifft, ystyried teithiau thema—mae John Williams-Davies, y cyfarwyddwr, yn edrych ar y posibilrwydd o deithiau thema o amgylch rhai o'r tai, a allai ddarparu'r lefel o ymgysylltu yr ydym yn chwilio amdani, gyda grwpiau o bobl.

Fodd bynnag, mae'n ddyddiau cynnar ac mae problemau, nid oes dwywaith am hynny. Fodd bynnag, nid ydym am ddilyn y llwybr o roi rhaff ym mynedfa pob un o'r tai a chael pobl yn edrych i mewn. Rhaid i ni ddod o hyd i ateb i hyn. Mae enghreifftiau eraill o arfer yn Ironbridge ac amgueddfeydd awyr agored eraill, ac ati, lle maent yn cael niferoedd mawr o bobl, felly mae'n bosibl mai'r cyfan sydd angen i ni ei wneud yw gweld yr hyn y maent hwy yn ei wneud. Credaf fod ffyrdd y gallwch ddi-ddanu'r cyhoedd hefyd—a fentraf ddweud—drwy ddehongliadau mewn gwisgoedd a phethau felly. Mae cyfle i ymwneud â'r ymwelydd a'i stopio rhag chwarae pêl-droed neu beth bynnag a throi ymweliad yn ymarfer dysgu.

[88] **Val Lloyd:** Sut yr ydych yn cysoni'r cysyniad o fynediad am ddim gyda chyflwyno ffioedd parcio mewn lle fel Sain Ffagan, yn enwedig pan fo gennych fwriad cyffesedig i ddenu amrywiaeth ehangach o grwpiau cymdeithasol?

Mr Houlihan: I think that there are a number of points there. If I were to say that, in terms of the income that has been, or will be, derived from car parking, that, in agreement with the Minister, will be diverted into our partnership programme, which will work across Wales by bringing the national collections to people across Wales, I think that you begin to see some of the balances that are in relation to that. I think that, secondly, there might be other issues, and again, we are going to have to do the research to confirm this. Our non-visitor research would seem to indicate that people who do not visit museums are more likely to come by public transport. There are issues in relation to the cost of public transport, and the ease of using public transport to come to somewhere like St Fagans. We would also argue that in terms of environmental sustainability—I know that it sounds like a tax on cars, but I think that if that money for parking is deployed into a key area of access, and in subsequent years could be devoted to other aspects and the sort of issues that we have been talking about this morning, then that is a good thing. I think that the final point is that, according to some of the public expressions, polls done in newspapers and so on, and general, casual feedback from people in the car park, people are saying that it is a good thing.

[89] **Janet Davies:** I am sorry to interrupt you, Val, but I would just like to let Alun come in with a brief point on that.

[90] **Alun Cairns:** Thank you, Cadeirydd. Bearing in mind the positive publicity given to highlight the free entry to the museum, and considering that car-parking charges have been introduced, do you think that the principle of free entry to the museum has been compromised?

Mr Houlihan: No, because not everyone comes by car, and the core experience is still free.

[91] **Jocelyn Davies:** How much are we talking about here for an average car to stay there for several hours?

Mr Houlihan: Two pounds.

[92] **David Melding:** What was the fee to get

Mr Houlihan: Credaf fod nifer o bwyntiau yn y fan honno. Pe bawn yn dweud, yn achos yr incwm sydd wedi, neu a fydd, yn deillio o'r maes parcio, y bydd hwnnw, mewn cytundeb â'r Gweinidog, yn cael ei roi i'n rhaglen bartneriaeth, a fydd yn gweithio ledled Cymru drwy ddod â'r casgliadau cenedlaethol i bobl ledled Cymru, credaf eich bod yn dechrau gweld rhai o'r ffactorau cydbwyso sy'n ymwneud â hynny. Credaf, yn ail, fod materion eraill o bosibl, ac eto, bydd yn rhaid i ni wneud yr ymchwil i gadarnhau hyn. Byddai'n ymddangos o'n hymchwil mysg pobl nad ydynt yn ymwelwyr fod pobl nad ydynt yn ymweld ag amgueddfeydd yn fwy tebygol o ddod ar drafnidiaeth gyhoeddus. Mae materion ynglŷn â chost trafnidiaeth gyhoeddus, a hwylustra defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus i ddod i rywle fel Sain Ffagan. Byddem hefyd yn dadlau, o ran cynaliadwyedd amgylcheddol—gwn fod hyn i'w glywed fel treth ar geir, ond credaf os yw'r arian parcio hwnnw yn cael ei wario ar faes allweddol o fynediad, ac y gallai gael ei neilltuo i agweddau eraill a'r mathau o faterion eraill yr ydym wedi bod yn eu trafod y bore yma yn y blynyddoedd wedyn, yna mae hynny'n beth da. Credaf mai'r pwynt olaf yw, yn ôl rhai o'r arolygon barn, a wneir mewn papurau newydd ac ati, ac adborth anffurfiol, cyffredinol gan bobl yn y maes parcio, mae pobl yn dweud ei fod yn beth da.

[89] **Janet Davies:** Mae'n ddrwg gennyf dorri ar eich traws, Val, ond hoffwn adael i Alun wneud pwynt byr am hynny.

[90] **Alun Cairns:** Diolch, Gadeirydd. O gofio'r cyhoeddusrwydd cadarnhaol a roddwyd i hysbysebu'r mynediad am ddim i'r amgueddfa, a chan ystyried bod taliadau parcio wedi cael eu cyflwyno, a ydych o'r farn fod yr egwyddor o fynediad am ddim i'r amgueddfa wedi cael ei gyfaddawdu?

Mr Houlihan: Na, oherwydd nid yw pawb yn teithio i'r amgueddfa mewn car, ac mae'r profiad craidd am ddim o hyd.

[91] **Jocelyn Davies:** Am faint yr ydym yn sôn i gar aros yno am nifer o oriau?

Mr Houlihan: Dwy bunt.

[92] **David Melding:** Beth oedd y ffi

in?

[93] **Jocelyn Davies:** Say, for a family of four who would come in a car?

Dr Wiliam: Prior to free admission, a family of four would probably have been touching £20. It is that order of difference.

[94] **David Melding:** So, there is a saving even for an individual?

Dr Wiliam: Yes.

[95] **Jocelyn Davies:** We are quids in, then.

[96] **Val Lloyd:** Not only are we quids in, but I was also going to highlight the fact that you said that there was a trade-off with that quite reasonable car parking fee because you would get increased engagement with your partnership scheme, which I would like to come back to. So, you would say that you are fairly confident that the car parking fee would not put off the groups that you have been trying to target?

Mr Houlihan: We would hope not, but that would have to be verified in terms of research on visitor numbers and so on, which got held up.

[97] **Val Lloyd:** You do, obviously, get grant-in-aid compensation for the loss of revenue. Does it adequately compensate you? You are probably going to say 'no'. Perhaps, I should rephrase that question: is it a fair trade-off?

Mr Houlihan: I think that, at the time, it was fair, but I think that there have been hidden factors within all of this that have come to light. It is common with other museums in the UK that went down this particular route. I think that they have found that the wear and tear has actually been higher than was originally anticipated. You also get some other spin-offs, for example—as I indicated earlier—in the changing nature of the job of some of our business services assistants, and so on, which we are going to have to deal with through training and things like that, but then, we have a training budget.

[98] **Val Lloyd:** How was it calculated, and does that compare similarly with museums in the rest of the UK?

mynediad?

[93] **Jocelyn Davies:** Ar gyfer teulu o bedwar a fyddai'n dod mewn car, dyweder?

Dr Wiliam: Cyn y mynediad am ddim, byddai wedi costio'n agos i £20 i deulu o bedwar. Dyna'r math o wahaniaeth.

[94] **David Melding:** Felly, mae hyd yn oed unigolyn yn arbed arian?

Dr Wiliam: Ydy.

[95] **Jocelyn Davies:** Yr ydym ar ein hennill, felly.

[96] **Val Lloyd:** Nid yn unig ein bod ar ein hennill, ond yr oeddwn hefyd yn mynd i bwysleisio'r ffaith i chi ddweud bod cyfaddawd gyda'r ffi parcio eithaf rhesymol hwnnw oherwydd y byddech yn ymgysylltu mwy gyda'ch cynllun partneriaeth, yr hoffwn ddod yn ôl ato. Felly, byddech yn dweud eich bod yn eithaf hyderus na fyddai'r ffi parcio yn rhwystro'r grwpiau yr ydych wedi bod yn ceisio eu targedu rhag ymweld â'r amgueddfa?

Mr Houlihan: Byddem yn gobeithio na fyddai'n rhwystro'r grwpiau hynny, ond byddai'n rhaid gwirio hynny o ran ymchwil i niferoedd ymwelwyr ac ati, a gafodd ei gohirio.

[97] **Val Lloyd:** Yr ydych, yn amlwg, yn cael cymorth grant i ddigolledu'r golled mewn refeniw. A yw'n eich digolledu'n ddigonol? Yr ydych yn mynd i ddweud 'na' yn ôl pob tebyg. Efallai y dylwn aileirio'r cwestiwn: a yw'n gyfaddawd teg?

Mr Houlihan: Yr oedd yn deg, ar y pryd, yn fy marn i, ond credaf fod ffactorau cudd o fewn hyn oll sydd wedi dod i'r fei. Mae'n gyffredin yn achos amgueddfeydd eraill yn y DU a aeth ar hyd y llwybr penodol hwn. Credaf eu bod wedi canfod bod y traul wedi bod yn uwch mewn gwirionedd nag a ragwelwyd yn wreiddiol. Yr ydych hefyd yn cael rhai sgil-ffeithiau eraill, er enghraifft—fel y dynodais yn gynharach—newid yn natur gwaith rhai o'n cynorthwyr gwasanaethau busnes, ac yn y blaen, y bydd yn rhaid i ni fynd i'r afael ag ef drwy hyfforddiant a phethau felly, ond wedyn, mae gennym gyllideb hyfforddi.

[98] **Val Lloyd:** Sut y'i cyfrifwyd, ac a yw hynny'n debyg i amgueddfeydd yng ngweddill y DU?

Mr Houlihan: I will have to ask Eurwyn to answer this question because, in Northern Ireland, they continue to charge for entry to the museums.

Dr Wiliam: I cannot honestly answer that. At the time, as Mike said, we thought that it was fair. What we had no handle on whatsoever, of course, was the actual number of increased visits. That has surpassed expectation, so there is a concomitant added wear and tear factor, unquestionably.

[99] **Val Lloyd:** When you answered my colleague, Denise, you instanced your visitor research. How much, approximately, do you spend on your marketing budget and your visitor research?

An approximate figure would be acceptable.

Mr Houlihan: Sorry for the brief pause, I am trying to find that information. Maybe we could reply in writing to that question.

[100] **Janet Davies:** Yes, perhaps we could have a note on that.

[101] **Val Lloyd:** That would be fine. Thank you, Chair. If you do not have this figure to hand, you may also wish to include this in the note. We heard quite a lot earlier about the need for resources to deal with your conservation and documentation backlogs, and I wondered whether the expenditure on marketing and research yields value for money, particularly in relation to the other needs.

Mr Houlihan: It is one area that is constantly monitored because, clearly, marketing has an intimate relationship with visitor numbers, and we are constantly monitoring that, both in our directorate meetings and at council as well. The council does seek for papers to be brought forward on marketing strategy and so on, in order to ensure that visitor numbers are maintained.

[102] **Val Lloyd:** I have just a final couple of questions. I noticed that you have 25,000 items on loan, which seemed to be an enormous number until I realised that it was only 0.53 per cent of your collection. This is

Mr Houlihan: Bydd yn rhaid i mi ofyn i Eurwyn ateb y cwestiwn hwn oherwydd, yng Ngogledd Iwerddon, maent yn parhau i godi tâl mynediad i'r amgueddfeydd.

Dr Wiliam: Ni allaf ateb hynny yn onest. Ar y pryd, fel y dywedodd Mike, yr oeddem o'r farn ei fod yn deg. Yr hyn nad oedd gennym unrhyw syniad ohono o gwbl, wrth gwrs, oedd cynnydd gwirioneddol yn niferoedd ymweliadau. Mae hynny wedi mynd y tu hwnt i'r disgwyl, felly mae ffactor traul ychwanegol cysylltiedig, heb amheuaeth.

[99] **Val Lloyd:** Pan yr atebasoch fy nghyd-Aelod, Denise, bu i chi enghreifftio eich ymchwil i ymwelwyr. Tua faint yr ydych yn ei wario ar eich cyllideb farchnata a'ch ymchwil i ymwelwyr?

Byddai ffigur bras yn dderbyniol.

Mr Houlihan: Mae'n ddrwg gennyf am y saib byr, yr wyf yn ceisio dod o hyd i'r wybodaeth honno. Efallai y gallem ateb y cwestiwn hwnnw'n ysgrifenedig.

[100] **Janet Davies:** Ie, efallai y gallem gael nodyn am hynny.

[101] **Val Lloyd:** Byddai hynny'n iawn. Diolch, Gadeirydd. Os nad yw'r ffigur hwn gennych wrth law, efallai y byddwch am gynnwys hwn yn y nodyn hefyd. Clywsom cryn dipyn yn gynharach am yr angen am adnoddau i ddelio â'ch ôl-groniadau cadwraeth a dogfennaeth, ac yr oeddwn yn meddwl tybed a yw'r gwariant ar farchnata ac ymchwil yn rhoi gwerth am arian, yn enwedig mewn perthynas â'r anghenion eraill.

Mr Houlihan: Mae'n un maes sy'n cael ei fonitro'n gyson oherwydd, yn amlwg, mae cysylltiad agos rhwng marchnata a niferoedd ymwelwyr, ac yr ydym yn monitro hynny yn gyson, yn ein cyfarfodydd cyfarwyddiaeth ac yn y cyngor hefyd. Mae'r cyngor yn gofyn i bapurau gael eu cyflwyno ar y strategaeth farchnata ac ati, i sicrhau bod niferoedd ymwelwyr yn cael eu cynnal.

[102] **Val Lloyd:** Mae gennyf rai cwestiynau cyn gorffen. Sylwais fod gennych 25,000 o eitemau ar fenthyg, a oedd yn ymddangos yn rhif enfawr tan i mi sylweddoli mai dim ond 0.53 y cant o'ch casgliad oedd hwnnw. Mae

a fairly direct question: would you like to see that loan programme extended?

Mr Houlihan: In a sense, we are actively pursuing that, particularly through the partnership programme. I think that it can be argued that the partnership programme is actually additional to those loans. I think that there are some 88 registered museums in Wales, and pretty well all of them have something on loan from us. The extent to which we lend, to a certain extent, is predicated on the ability of the borrower, or the facilities of the borrower, to take those objects—their own spaces, their own environments—and our ability to resource the loans programme. However, the partnership group does, in a sense, set up accredited museums, if you like, where we know that the standards are satisfactory, and we will then look at how we could put more objects into that. Certainly in terms of use of collections, I think that that is a very important area.

[103] **Val Lloyd:** I was very interested in the partnership programmes and particularly in the outreach collection, which I thought would be an excellent way to reach people who are perhaps not reachable by other ways. Again, in view of the need for engagement, do you have any specific plans to increase the items on loan, bearing in mind that they have to be going somewhere where receipt can be guaranteed?

Mr Houlihan: Again, loans are a fluctuating element. Not only do we have loans within Wales, we also have loans outside of Wales, within the rest of the UK. In some senses, some of our collections touch virtually every continent in terms of loans. We have a very dynamic international loans programme, which is obviously very important, not only in terms of raising our reputation, but the reputation of Wales abroad. So, that is going on. It is quite demanding of resources in many respects, in terms of time and diversion of resources, but we do see it as a fundamental obligation on the museum to go down these routes.

We would like to see more loans being undertaken, and I would guess that, in terms of the future of the national museums and galleries, and other museums, loans will very

hwn yn gwestiwn eithaf uniongyrchol: a hoffech weld y rhaglen fenthyg honno yn cael ei hehangu?

Mr Houlihan: Ar ryw ystyr, yr ydym yn mynd ati i geisio gwneud hynny, yn enwedig drwy'r rhaglen bartneriaeth. Credaf y gellir dadlau bod y rhaglen bartneriaeth yn ychwanegol mewn gwirionedd i'r benthyciadau hynny. Credaf fod rhyw 88 o amgueddfeydd cofrestredig yng Nghymru, ac mae gan bron pob un ohonynt rywbeth ar fenthyg gennym. Mae'r graddau yr ydym yn benthycu, i raddau helaeth, yn seiliedig ar allu'r benthyciwr, neu gyfleusterau'r benthyciwr, i gymryd y gwrthrychau hynny—eu gofodau hwy eu hunain, eu hamgylcheddau hwy eu hunain—a'n gallu i ariannu'r rhaglen fenthyciadau. Fodd bynnag, mae'r grŵp partneriaeth, ar ryw ystyr, yn sefydlu amgueddfeydd achredig, os hoffwch chi, lle gwyddom fod y safonau yn foddhaol, ac wedyn byddwn yn edrych ar sut y gallem roi mwy o wrthrychau yn hwnnw. Yn sicr, o ran defnydd o gasgliadau, mae hwnnw'n faes pwysig iawn yn fy marn i.

[103] **Val Lloyd:** Yr oedd gennyf lawer o ddiddordeb yn y rhaglenni partneriaeth, yn enwedig y casgliad allgymorth, a fyddai'n ffordd wych o gyrraedd pobl efallai nad oes modd eu cyrraedd fel arall yn fy marn i. Eto, o ystyried yr angen i ymgysylltu â phobl, a oes gennych unrhyw gynlluniau penodol i gynyddu'r eitemau ar fenthyg, o gofio bod yn rhaid iddynt fynd i rywle lle y gellir sicrhau eu bod wedi cael eu derbyn?

Mr Houlihan: Eto, mae benthyciadau yn elfen amrywiol. Nid yn unig y mae gennym fenthyciadau yng Nghymru, mae gennym fenthyciadau y tu hwnt i Gymru hefyd, yng ngweddill y DU. I ryw raddau, mae rhai o'n casgliadau yn cyrraedd pob cyfandir fwy neu lai o ran benthyciadau. Mae gennym raglen fenthyciadau ryngwladol hynod ddeinamig, sy'n amlwg yn bwysig iawn, nid yn unig o ran gwella ein henw da, ond gwella enw da Cymru dramor. Felly, mae hynny'n digwydd. Mae'n gofyn llawer o adnoddau mewn sawl ffordd, o ran amser a neilltuo adnoddau, ond yr ydym yn ei ystyried yn ofyniad hanfodol ar yr amgueddfa i ddilyn y llwybrau hyn.

Hoffem weld mwy o fenthyciadau ar waith, a byddwn yn tybio, yn achos dyfodol yr amgueddfeydd ac orielau cenedlaethol, ac amgueddfeydd eraill, y bydd benthyciadau yn

much be part of the pattern of how collections are used in future.

[104] **Val Lloyd:** Thank you, Chair.

[105] **Janet Davies:** Thank you, Val. May I just ask, do you borrow as well as lend?

Mr Houlihan: We do occasionally borrow. I would cite, for example, the Thomas Jones exhibition, which was on in the museum last year, and which included a very significant loan from St Petersburg and loans from museums in the United States too.

[106] **Janet Davies:** You have talked about drawing on the experience and examples of good practice in other museums; do you have any plans to extend that? How do you propose to do that in the future?

Mr Houlihan: I think that there are a number of routes into this. First, the museum has excellent relationships with quite a number of important museums, both in the UK and internationally. There are also a number of bodies where best practice is being exchanged and, at my level for example, I would cite the National Museum Directors' Conference, which is looking at precisely many of the issues that are brought up here. 'Too Much Stuff?' is an example of addressing those sorts of issues at a strategic, almost political level. There are quite a number of museum professional bodies that members of staff belong to and where good practice is exchanged. Also, there have been situations where staff have gone on mini-internships and exchanges, and so on, to other organisations to see how they do things, how things operate, and such like. So, the relationships are good, and the opportunities exist to look at these things. Across museums, this has been going on for years. At a previous museum I worked in, members of staff went for, say, three months to work in Canada to look precisely at how they managed their conservation programmes, and so on. That is certainly something that we can look at, but it is also a matter of keeping abreast of some of the new developments that are coming through and where they might be coming from. Identifying those is a little trickier, I have to say.

rhan bwysig o'r modd y bydd casgliadau'n cael eu defnyddio yn y dyfodol.

[104] **Val Lloyd:** Diolch, Gadeirydd.

[105] **Janet Davies:** Diolch, Val. A gaf fi ofyn, a ydych yn benthg yn ogystal â rhoi benthg?

Mr Houlihan: Yr ydym yn benthg o bryd i'w gilydd. Byddwn yn crybwyll, er enghraifft, arddangosfa Thomas Jones, a oedd i'w gweld yn yr amgueddfa y llynedd, ac a oedd yn cynnwys benthyciad sylweddol iawn o St Petersburg a benthyciadau o amgueddfeydd yn yr Unol Daleithiau hefyd.

[106] **Janet Davies:** Yr ydych wedi sôn am ddefnyddio profiad ac enghreifftiau o arferion da mewn amgueddfeydd eraill; a oes gennych unrhyw gynlluniau i ehangu hynny? Sut yr ydych yn cynnig gwneud hynny yn y dyfodol?

Mr Houlihan: Credaf fod sawl ffordd o wneud hyn. Yn gyntaf, mae gan yr amgueddfa berthynas wych gyda llawer o amgueddfeydd pwysig, yn y DU ac yn rhyngwladol. Mae hefyd nifer o gyrff lle mae arfer gorau yn cael ei gyfnewid ac, ar fy lefel i er enghraifft, byddwn yn sôn am Gynhadledd Cyfarwyddwyr Amgueddfeydd Cenedlaethol, sy'n edrych ar lawer o'r union faterion sy'n cael eu trafod yma. Mae 'Too Much Stuff?' yn enghraifft o fynd i'r afael â'r mathau hyn o faterion ar lefel strategol, a gwleidyddol i raddau. Mae cryn nifer o gyrff proffesiynol amgueddfeydd y mae aelodau staff yn perthyn iddynt a lle caiff arferion da eu cyfnewid. Yn ogystal, bu sefyllfaoedd lle mae staff wedi cymryd rhan mewn lleoliadau byr neu gyfnewidiadau, ac ati, mewn sefydliadau eraill i weld sut maent yn gwneud pethau, sut mae pethau'n gweithio, ac yn y blaen. Felly, mae'r cydberthnasau'n dda, ac mae cyfleoedd i edrych ar y pethau hyn. Mae hyn wedi bod yn digwydd am flynyddoedd ledled amgueddfeydd. Mewn amgueddfa flaenorol y bûm yn gweithio ynddi, yr oedd aelodau staff yn mynd, er enghraifft, i weithio yng Nghanaada am dri mis i edrych yn fanwl ar sut yr oeddynt yn rheoli eu rhaglenni cadwraeth, ac yn y blaen. Mae hynny'n sicr yn rhywbeth y gallwn edrych arno, ond mae hefyd yn fater o sicrhau ein bod yn ymwybodol o rai o'r datblygiadau newydd sy'n dod i'r fei ac o ble y maent yn deillio. Rhaid i mi ddweud bod

nodi'r rheini ychydig yn anoddach.

[107] **Janet Davies:** We are coming to the end of the session now. You have talked, particularly early in the session, about possibly changing the thrust of your policies and perhaps altering the balances of what you do. Of course, you realise that this committee cannot take evidence on policy and the way in which you hold these balances—we can only look at what are your present strategy and policies and how they are being met. I hope that, perhaps, the Auditor General's report will have helped you in doing this. It has to be said, however, that there has been 20 years' evidence of not carrying out the policies that you have had in the past. As you say, they may not have been the best strategies, but they were there. Could you perhaps just summarise for us at the end what you consider to be your main priorities for action in response to this report?

Mr Houlihan: We accept the report's recommendations. We have flagged up some areas in relation to the issue of access versus engagement, which may have implications for how we go forward in terms of using this. However, I think that I would suggest that we have had 20 years of not completing the job. I would hope that, in the next 10 years, we could complete the job, but complete it in a way that is supportive of the new intellectual direction that the organisation will take, and supportive of what I hope we have tried to demonstrate this morning—which is coming through with the report—which is the new ways in which we will use the collections in future. One of the curators said to me the other day—and he is responsible for over 1 million objects—'There isn't a single object in my collection that is not being used'.

I think that museums are sometimes their own worst enemies because they talk about stored collections as if all these objects are dead. People are quite happy to talk about libraries, and they understand the concept of public front end and lots of books in there. Similarly with an archive, it sounds great. They are not talked about as stores, and there is a concept that those objects are waiting to be used, that they are live and that something

[107] **Janet Davies:** Yr ydym yn dod at ddiwedd y sesiwn yn awr. Yr ydych wedi siarad, yn enwedig ar ddechrau'r sesiwn, am newid cyfeiriad eich polisiau ac efallai newid cydbwysedd yr hyn a wnewch o bosibl. Wrth gwrs, yr ydych yn sylweddoli na all y pwyllgor hwn gymryd tystiolaeth am bolisi a'r modd yr ydych yn dal y cydbwysedd hwn—ni allwn ond edrych ar beth yw eich strategaeth a'ch polisiau ar hyn o bryd a sut maent yn cael eu bodloni. Yr wyf yn gobeithio, efallai, y bydd adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol wedi bod o gymorth i chi wneud hyn. Rhaid dweud, fodd bynnag, y bu 20 mlynedd o dystiolaeth o beidio â gweithredu'r polisiau a fu gennych yn y gorffennol. Fel y bu i chi ddweud, efallai nad hwy oedd y strategaethau gorau, ond yr oeddynt yno. A allech grynhoi i ni ar y diwedd beth y credwch yw eich prif flaenoriaethau gweithredu mewn ymateb i'r adroddiad hwn?

Mr Houlihan: Yr ydym yn derbyn argymhellion yr adroddiad. Yr ydym wedi nodi rhai o'r meysydd mewn perthynas â'r mater o fynediad yn erbyn ymgysylltu â phobl, a fydd efallai yn effeithio ar sut yr ydym yn symud ymlaen o ran defnyddio hwn. Fodd bynnag, credaf y byddwn yn awgrymu ein bod wedi cael 20 mlynedd o beidio â gorffen y gwaith. Byddwn yn gobeithio y gallem gwblhau'r gwaith yn y 10 mlynedd nesaf, ond ei gwblhau mewn modd sy'n cefnogi cyfeiriad deallusol newydd y sefydliad, ac sy'n cefnogi'r hyn yr wyf yn gobeithio ein bod wedi ceisio ei arddangos y bore yma—sy'n dod i'r amlwg yn yr adroddiad—sef y ffyrdd newydd y byddwn yn defnyddio ein casgliadau yn y dyfodol. Dywedodd un o'r curaduron wrthyf y diwrnod o'r blaen—ac mae ef yn gyfrifol am dros 1 miliwn o wrthrychau—'Nid oes yr un gwrthrych yn fy nghasgliad nad yw'n cael ei ddefnyddio'.

Credaf mai amgueddfeydd yw eu gelynyon pennaf eu hunain ar brydiau oherwydd maent yn sôn am gasgliadau mewn storffeydd fel pe bai'r gwrthrychau hyn i gyd wedi cyrraedd diwedd eu hoes. Mae pobl yn ddigon bodlon siarad am lyfrgelloedd, ac maent yn deall elfen gyhoeddus llyfrgelloedd a'r llu o lyfrau sydd ynddynt. Yn yr un modd gydag archifau, mae'n swnio'n wych. Ni siaredir amdanynt fel storffeydd, ac mae cysyniad bod

is going to happen to them. I would argue that museums need to think of their collections in that way: that these are resources that are going to be used in the future.

y gwrthrychau hynny yn aros i gael eu defnyddio, eu bod yn fyw a bod rhywbeth yn mynd i ddigwydd iddynt. Byddwn yn dadlau bod angen i amgueddfeydd feddwl am eu casgliadau yn y modd hwnnw: bod y rhain yn adnoddau sy'n mynd i gael eu defnyddio yn y dyfodol.

New technology opens up some interesting opportunities. On the ways in which we will use our collections, particularly on the access side—referring to that element in the report—I think that there are some very exciting possibilities out there. I think that we have done the securing of the collections. We have done that, but we have to maintain it and, obviously, increase it in step with new developments. On the conservation side, there is a long job to be done, and that is going to be an ongoing job, but I have indicated the sort of strategies that we can adopt for that. Documentation and storage will be addressed in this next period, so I hope that when the NAO comes back, it will find that there is a job completed there. However, collection development, growth of the collections and conservation, in a sense, are always going to be with us.

Mae technoleg newydd yn agor y drws i gyfleoedd diddorol. O ran sut y byddwn yn defnyddio ein casgliadau, yn enwedig o ran mynediad—gan gyfeirio at yr elfen honno yn yr adroddiad—credaf fod rhai posibiliadau cyffrous iawn ar gael. Credaf ein bod wedi cyflawni'r gwaith o ddiogelu'r casgliadau. Yr ydym wedi gwneud hynny, ond mae'n rhaid i ni gynnal y gwaith hwnnw ac, yn amlwg, ei gynyddu yn unol â datblygiadau newydd. O ran cadwraeth, mae llawer o waith o'n blaenau, ac mae hwnnw'n mynd i fod yn waith parhaus, ond yr wyf wedi dynodi'r math o strategaethau y gallwn eu mabwysiadu i wneud hynny. Byddwn yn mynd i'r afael â dogfennu a storio yn y cyfnod nesaf hwn, felly yr wyf yn gobeithio pan ddychwela'r SAG, y bydd yn canfod bod y gwaith hwnnw wedi ei gwblhau. Fodd bynnag, bydd datblygu'r casgliad, twf y casgliadau a chadwraeth, ar ryw ystyr, yn rhywbeth a fydd gyda ni drwy'r amser.

[108] **Janet Davies:** Thank you very much for your helpful answers. I remind you that there will be a verbatim record of this session, which will be sent to you so that you can correct anything that you feel is inaccurate before the committee's report is published. Thank you both for coming, it has been a very interesting session.

[108] **Janet Davies:** Diolch yn fawr iawn am eich atebion defnyddiol. Yr wyf yn eich atgoffa y bydd cofnod gair am air o'r sesiwn hwn, a fydd yn cael ei anfon atoch fel y gallwch gywiro unrhyw beth sy'n anghywir yn eich barn chi cyn cyhoeddi adroddiad y pwyllgor. Diolch i chi'ch dau am ddod, mae wedi bod yn sesiwn diddorol iawn.

*Daeth y sesiwn cymryd tystiolaeth i ben am 11.32 a.m.
The evidence-taking session ended at 11.32 a.m.*

(1) Mae'r tyst wedi darparu'r cywiriad canlynol i'w ateb i gwestiwn [13]. Yr ateb cywir yw:

'Na fyddai, byddai'n rhaid inni ddibynnu ar yswiriant y Llywodraeth ar gyfer y risgiau hyn ond mae gennym yswiriant ar gyfer cerbydau.'

(1) The witness has issued the following correction to his answer to question [13]. The correct answer is:

'No, we would have to rely on Government indemnity for these risks but we do carry insurance for vehicles.'

AMGUEDDFEYDD AC ORIELAU CENEDLAETHOL CYMRU
NATIONAL MUSEUMS & GALLERIES OF WALES

Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NP
Ffôn 029 2039 7951 Ffacs 029 2057 3321
e.bost: post@aocc.ac.uk
www.aocc.ac.uk

Cathays Park, Cardiff CF10 3NP
Tel 029 2039 7951 Fax 029 2057 3321
e.mail: post@nmgw.ac.uk
www.nmgw.ac.uk

24 May 2004

Adrian Crompton
Clerk – Audit Committee
National Assembly for Wales
Cardiff Bay
CF99 INA

Dear Adrian,

Further to my letter of the 10 May and the subsequent email from the museum's Strategic Policy Coordinator, I am now able to confirm the museum's annual expenditure on marketing and visitor research.

In 2003/4 our marketing budget was £490,000 which incorporated direct staffing costs as well as the cost of implementing our marketing campaigns. Within that figure a sum of £13,500 was allocated to the annual visitor research.

I hope that this clarifies the position. Please accept my apologies for the confusion caused initially. As before, I have copied this information to the Auditor General for Wales, Sir John Shortridge, Margaret Evans and the Assembly compliance office.

Best wishes,

Mike

Michael Houlihan
Director General

Cc Sir John Shortridge, Auditor General for Wales
Margaret Evans
Assembly Compliance Office



THE AUDIT COMMITTEE

The National Assembly's Audit Committee ensures that proper and thorough scrutiny is given to the Assembly's expenditure. In broad terms, its role is to examine the reports on the accounts of the Assembly and other public bodies prepared by the Auditor General for Wales; and to consider reports by the Auditor General for Wales on examinations into the economy, efficiency and effectiveness with which the Assembly has used its resources in discharging its functions. The responsibilities of the Audit Committee are set out in detail in Standing Order 12.

The membership of the Committee as appointed on 3 June 2003:

Janet Davies (Plaid Cymru) - Chair
Leighton Andrews (Labour)
Mick Bates (Liberal Democrat)
Alan Cairns (Conservative)
Jocelyn Davies (Plaid Cymru)
Christine Gwyther (Labour)
Denise Idris-Jones (Labour)
Mark Isherwood (Conservative)
Val Lloyd (Labour)
Carl Sargeant (Labour)

Further information about the Committee can be obtained from:

Siwan Davies
Clerk to the Audit Committee
National Assembly for Wales
Cardiff Bay
CF99 1NA
Tel: 02920 898501
Email: Audit.comm@wales.gsi.gov.uk